# MESUR ADDYSG (CYMRU)

## Memorandwm Esboniadol

Cafodd y Memorandwm Esboniadol hwn ei baratoi gan Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Llywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i byddai darpariaethau'r Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

***Jane Hutt* AC**
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Mesur Arfaethedig

***23 Hydref 2009***

# Tudalen Gynnwys

## Rhan 1


1. Disgrifiad
2. Cefndir Deddfwriaethol
3. Diben ac effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth
4. Ymgynghori
5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth
6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol


## Rhan 2 – Asesiad Effaith


7. Opsiynau
8. Costau a manteision
9. Asesu'r Gystadleuaeth
10. Adolygu ar ôl gweithredu

**ATODIAD 1 – Nodiadau Esboniadol**

# 1. Disgrifiad

1.1 Bydd y Mesur hwn, fel y'i diwygiwyd gan drafodion Cyfnod 2, yn ymestyn hawl plant[1] drwy roi iddynt hawliau i wneud apelau anghenion addysgol arbennig (AAA) a hawliadau o wahaniaethu ar sail anabledd i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (y Tribiwnlys). Bydd yn diwygio'r gyfraith sy'n rhoi i rieni[2] yr hawl i wneud apelau a hawliadau i'r Tribiwnlys, fel y nodir yn Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996 a rhan 4 o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995[3].

1.2 Yn ei hanfod, bydd y Mesur:

- yn darparu cyfnod treialu cyfreithiol cychwynnol pan fydd plant mewn ardaloedd awdurdod lleol penodedig yn gallu gwneud apelau a hawliadau i'r Tribiwnlys a hefyd yn galluogi'r Tribiwnlys i gofrestru a gwrando ar apelau/hawliadau;

- yn sgil hynny, yn rhoi hawl i blant ledled Cymru i wneud apelau a hawliadau i'r Tribiwnlys;

- yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau) roi gwybod i blant am eu hawliau apelio;

- yn rhoi dyletswydd ar AALlau i wneud trefniadau ar gyfer Gwasanaethau Partneriaeth a Datrys Anghytundebau, ac i roi gwybod i blant am eu hawliau mynediad i'r gwasanaethau hynny;

- yn rhoi dyletswydd newydd ar AALlau i roi mynediad i wasanaethau eirioli annibynnol a all wrando ar blant a rhoi llais i'w safbwyntiau a'u pryderon. Bydd disgwyl i eiriolwyr allu helpu plant i gymryd rhan mewn prosesau datrys, i baratoi achos apêl/hawliad a'u cefnogi neu'u cynrychioli mewn gwrandawiadau;

- yn cael gwared ar swyddogaethau Gweinidog y Goron a gofynion ynghylch cydsyniad mewn perthynas â rheoliadau sy'n llywodraethu awdurdodaethau'r Tribiwnlys o ran gwahaniaethu ar sail anabledd;

- yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n llywodraethu awdurdodaeth y Tribiwnlys o ran Gwahaniaethu ar sail Anabledd; ac

---

[1] Mae adran 579 o Ddeddf Addysg 1996 yn diffinio plentyn fel person nad yw dros yr oedran ysgol gorfodol. Fodd bynnag, mae adran 312(5) yn ymestyn diffiniad 'plentyn' at ddibenion Rhan 4 o Ddeddf 1996, i gynnwys unrhyw berson sydd heb gyrraedd 19 oed ac sydd wedi cofrestru mewn ysgol.

[2] Yn y cyd-destun hwn mae rhiant yn cynnwys unrhyw berson nad yw'n rhiant i blentyn ond sydd â chyfrifoldeb fel rhiant am blentyn, neu sy'n gofalu amdano ar sail hirdymor a sefydlog.

[3] Diwygiwyd Deddf Addysg 1996 a Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 gan Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001

- yn rhoi cyfrifoldeb ar Weinidogion Cymru i ystyried cwynion am beidio â gweithredu gorchmynion y Tribiwnlys o ran Gwahaniaethu ar sail Anabledd;

- yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn i ddiwygio neu ddiddymu deddfwriaeth bresennol neu ddeddfwriaeth yn y dyfodol sy'n diddymu ac yn ailddeddfu Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995;

- yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd a rhoi cyfarwyddiadau i AALlau o dan amgylchiadau lle mae'r AALl yn gweithredu, neu'n bwriadu gweithredu, yn afresymol wrth gyflawni'r swyddogaethau gwahaniaethu ar sail anabledd a osodwyd arno gan y Mesur arfaethedig, lle mae'r AALl yn methu â chyflawni dyletswydd gwahaniaethu ar sail anabledd a osodwyd arno neu lle mae'n methu â chyflawni ei swyddogaethau gwahaniaethu ar sail anabledd yn unol â safon sy'n ddigonol, neu ddim o gwbl.

**Y Cwricwlwm yng Nghymru**

1.3 Mae'r Mesur hefyd yn cael ei ddefnyddio fel cyfrwng i ddiwygio deddfwriaeth gyfredol sy'n ymwneud â'r Cwricwlwm yng Nghymru yn dilyn cyflwyno'r cyfnod sylfaen ar 1 Awst 2008 ar gyfer disgyblion 3-4 oed. Bydd y cyfnod sylfaen yn cael ei roi ar waith fesul cam ac ni chaiff ei gyflwyno'n llawn tan 1 Awst 2011. Yn unol â hynny, mae'r cyfnod sylfaen yn berthnasol i'r disgyblion hynny sydd yn:

- 3-4 oed o 1 Awst 2008;
- 3-5 oed o 1 Awst 2009;
- 3-6 oed o 1 Awst 2010; a
- 3-7 oed o 1 Awst 2011.

1.4 Bydd y cyfnod sylfaen, unwaith y caiff ei gyflwyno'n llawn ar 1 Awst 2011, yn disodli'n gyfan gwbl gyfnod allweddol 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol sydd ar hyn o bryd yn cynnwys disgyblion 5 i 7 oed. Felly, bydd y newidiadau deddfwriaethol a ganlyn yn cael eu gwneud:

- cael gwared ar bob cyfeiriad yn y llyfr statud at gyfnod allweddol 1 o 1 Awst 2011; ac
- ailenwi'r "foundation stage" yn "foundation phase" (cyfnod sylfaen). Newid yn yr enw Saesneg yn unig ydyw ac nid yw'n effeithio ar y math o ddarpariaeth addysgol a ddarperir gan y cyfnod sylfaen. "Foundation Phase" yw'r term Saesneg a ddefnyddir gan ymarferwyr ac yng nghyhoeddiadau Llywodraeth y Cynulliad, ac ystyrir ei bod yn ddymunol diwygio deddfwriaeth i gydweddu â'r term a ddefnyddir yn gyfredol.

**Deddf Dysgu a Sgiliau 2000**

**1.**5 Yn yr un modd, mae'r Mesur yn gyfle i ddiwygio Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 mewn perthynas â hawliau disgyblion o dan y cwricwlwm lleol (16-18).

1.6 Mae'r diwygiadau yn darparu eglurder mewn achosion lle nad yw'r dysgwr, yn y pen draw, yn mynychu'r ysgol neu'r sefydliad a bennwyd fel yr ysgol neu'r sefydliad perthnasol ar ei gyfer gan ei bennaeth ysgol yn ystod Cyfnod Allweddol 4.

1.7 Mae mân ddiwygiad arall yn caniatáu i bennaeth neu brifathro benderfynu ar hawl disgyblion ar ôl dechrau'r flwyddyn academaidd. Bydd hyn yn caniatáu i gyrhaeddiad addysgol disgyblion yn ystod cyfnod allweddol 4 gael ei ystyried yn llawn.

# 2. Cefndir Deddfwriaethol

2.1 Mae'r pwerau sy'n rhoi hawliau i rieni wneud apelau ynghylch asesiad a darpariaeth AAA, ac yn rhoi dyletswyddau cysylltiedig ar awdurdodau lleol, yn ymddangos yn Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996 fel y'i diwygiwyd gan Ran 1 o Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001. Roedd Deddf Addysg 2002 yn darparu ar gyfer sefydlu'r Tribiwnlys ac yn darparu bod Gweinidogion Cymru'n gwneud y rheoliadau sy'n llywodraethu ei awdurdodaeth AAA.

2.2 Mae hawl rhieni i wneud hawliadau o wahaniaethu anghyfreithlon yn erbyn "cyrff sy'n gyfrifol"[4] am resymau sy'n gysylltiedig ag anabledd eu plant wedi'i nodi yn Rhan 4 o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 fel y'i diwygiwyd gan Ran 2 o Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001.

*Swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol*

2.3 Trosglwyddwyd y rhan fwyaf o swyddogaethau gweinyddol yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chymru sy'n ymwneud â'r Tribiwnlys i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac yna i Weinidogion Cymru drwy rinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, cadwodd yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i wneud rheoliadau sy'n llywodraethu achosion Tribiwnlys ar hawliad o wahaniaethu anghyfreithlon (er bod hynny â chytundeb Gweinidogion Cymru). Hefyd, cadwodd yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i gyfeirio cydymffurfiaeth â Gorchymyn y Tribiwnlys.

[4] Yr AALl neu'r corff llywodraethu yw'r corff sy'n gyfrifol am ysgol a gynhelir neu feithrinfa a gynhelir, gan ddibynnu ar yr un sydd â'r swyddogaeth dan sylw. Yr AALl yw'r corff sy'n gyfrifol am Uned Cyfeirio Disgyblion; a'r perchennog sy'n gyfrifol am ysgol annibynnol neu ysgol arbennig nas cynhelir.

Pŵer a Chymhwysedd

2.4 Mae Adran 93 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006) yn rhoi pŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud Mesurau Cynulliad mewn perthynas â “materion” a restrir ym Maes 5 o Ran 1 o Atodlen 5 i'r Ddeddf honno.

2.5 Roedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trosi Pwerau Fframwaith) 2007 yn mewnosod “Mater 5.8” i Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Gweler y manylion isod:

> ***Mater 5.8***
> *Darpariaeth am ddarparu gwasanaethau a fwriedir i annog, galluogi neu gynorthwyo pobl –*
>
> *(a) i gymryd rhan effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant.*
>
> *(b) i gymryd mantais o gyfleoedd i gael cyflogaeth, neu*
>
> *(c) i gymryd rhan yn effeithiol ym mywyd eu cymuned.*

2.6 Roedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg a Hyfforddiant) 2008 yn mewnosod “Mater 5.17” i Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Gweler y manylion isod:

> ***Mater 5.17***
> *Addysg a hyfforddiant ar gyfer –*
> *personau sy'n cael mwy o anhawster i ddysgu na mwyafrif y personau o'r un oed â'r personau hynny;*
> *personau sy'n meddu ar, neu sydd wedi dioddef –*
> *(i) nam corfforol neu feddyliol, neu*
> *(ii)cyflwr iechyd sy'n gwaethygu (megis canser, sglerosis ymledol neu heintiad HIV) pan fydd ar gam lle nad oes nam corfforol neu feddyliol.*

2.7 Mae Rhan 3 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 yn caniatáu i Fesur y Cynulliad gael gwared ar swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, ar yr amod fod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio i hynny. Cafwyd y cydsyniad gofynnol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

*Y Cwricwlwm yng Nghymru*

2.8 Mae Rhan 7 o Ddeddf Addysg 2002 yn cynnwys y fframwaith cyfreithiol ar gyfer y Cwricwlwm yng Nghymru. Mae Adran 99 o Ddeddf Addysg 2002 yn gosod rhai dyletswyddau penodol ar Weinidogion Cymru, awdurdodau addysg lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a phenaethiaid i sicrhau bod y Cwricwlwm yng Nghymru yn bodloni rhai safonau penodol. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i'r Cwricwlwm yng Nghymru gynnwys Cwricwlwm Sylfaenol. Mae nifer o elfennau gwahanol i'r Cwricwlwm Sylfaenol hwnnw ac maent wedi'u nodi yn adran 101 o Ddeddf Addysg 2002. Un o'r elfennau hynny yw ei bod yn

ofynnol cael Cwricwlwm Cenedlaethol i Gymru. Mae Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru'n berthnasol i'r holl ddisgyblion hynny sydd wedi cyrraedd 3 oed ond nad ydynt eto wedi cyrraedd oedran ysgol gorfodol. Mae Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru ei hunan yn cynnwys y cyfnod sylfaen a'r cyfnodau allweddol (sy'n cynnwys cyfnod allweddol 1, 2, 3 a 4). Fel y nodir uchod, erbyn 1 Awst 2011 bydd cyfnod allweddol 1 wedi'i ddiddymu'n gyfan gwbwl a'r cyfnod sylfaen wedi cymryd ei le.

2.9 Mae'r pwerau i ddeddfu mewn perthynas â'r darpariaethau hyn wedi'u cynnwys ym Mater 5.4 a Mater 5.7 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n darparu fel a ganlyn.

> ***Mater 5.4***
>
> *Darpariaeth am y cwricwlwm mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol.*
>
> ***Mater 5.7***
>
> *Darpariaeth am yr hawl i addysg gynradd, uwchradd a phellach ac i hyfforddiant.*

Hawliau disgyblion o dan y cwricwlwm lleol

2.10 Mae adran 33D o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (a fewnosodwyd gan adran 25 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009) yn nodi y pennir ysgol neu sefydliad perthnasol disgybl yn ystod cyfnod allweddol 4, er mwyn rhoi amser i ysgolion a sefydliadau addysg bellach gynllunio'r cyrsiau i'w darparu i'r grŵp oedran 16-18. Caiff ei nodi gan bennaeth ysgol presennol y disgybl fel yr ysgol neu'r sefydliad sy'n debygol o fod yn gyfrifol am ddarparu'r mwyafrif o'i addysg pan na fydd y disgybl hwnnw o oedran ysgol gorfodol mwyach. Er bod adran 33D o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn ymdrin ag achosion pan fydd disgybl yn gadael yr ysgol neu'r sefydliad perthnasol, nid yw'n cynnwys achosion lle nad yw'r dysgwr wedi cael ei dderbyn neu ei gofestru yn yr ysgol neu'r sefydliad perthnasol yn y man cyntaf. Er enghraifft, pan fydd y dysgwr yn mynychu ysgol wahanol neu goleg chweched dosbarth.

2.11 Mae adran 33F(b) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn nodi bod gan ddisgybl sydd wedi dewis cwrs o dan adran 33E(1) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yr hawl i ddilyn y cwrs a ddewiswyd ganddo, oni bai y bydd pennaeth neu brifathro ysgol neu sefydliad perthnasol y disgybl, cyn 1 Medi, yn penderfynu nad oes gan y disgybl hawl i ddilyn y cwrs hwnnw.

2.12 Mae'r pwerau i ddeddfu mewn perthynas â'r darpariaethau hyn wedi'u cynnwys ym Mater 5.4 a Mater 5.8 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru

2006, y cyfeirir atynt uchod.

# 3. Diben ac effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth

3.1 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel y sail ar gyfer ei holl waith ar gyfer plant a phobl ifanc. Mynegir hyn mewn 7 Nod Craidd, yn arbennig y pumed nod: sicrhau bod plant yn cael gwrandawiad ac yn cael eu trin â pharch. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo lle bynnag y bo'n bosibl i gynyddu hawl plant a'u cyfraniad yn y prosesau a'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu haddysg, fel bod eu safbwyntiau'n cael eu clywed.

3.2 Diben y Mesur hwn yw ymestyn hawliau plant a phobl ifanc i wneud apêl i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Bydd y Mesur hefyd yn ymestyn yr hawl i blant a phobl ifanc wneud hawliadau o wahaniaethu ar sail anabledd.

3.3 Yn bennaf, nod y Mesur hwn yw:

- rhoi datganiad ymarferol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Nodau Craidd cysylltiedig Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- darparu sicrwydd ychwanegol y diwellir anghenion plant a phobl ifanc anabl a'r rheini ag AAA, drwy leihau'r tebygolrwydd efallai na fydd modd rhoi sylw i'w hanghenion pan na fydd eu rhieni eu hunain yn bwrw ymlaen ag apêl neu gais;
- rhoi hawl annibynnol i blant ag AAA (gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal) i apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir ynghylch eu hanghenion cymorth addysg[5].

**HAWLIAU PLANT I WNEUD APELAU A HAWLIADAU**

*Y Sefyllfa Bresennol*

3.4 Pan fydd rhieni (yr unigolyn neu'r asiantaeth sy'n gyfrifol am blentyn) yn anghytuno â rhai penderfyniadau[6] a wneir gan awdurdodau lleol yng

---

[5] Ym mis Gorffennaf 2008, cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ei adroddiad mewn perthynas â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ac argymhellodd yn ei grynodeb gweithredol y dylai Llywodraeth y DU weithredu'n ddi-oed i sicrhau bod gan blant ag AAA sy'n derbyn gofal hawl annibynnol i apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir am eu hanghenion cymorth.

[6] Y sail dros apelio yw bod AALl:

1)Yn gwrthod cynnal asesiad ffurfiol o anghenion addysgol arbennig plentyn;
2)Yn gwrthod cyhoeddi datganiad o anghenion addysgol arbennig plentyn.

Neu, os oes datganiad wedi'i gyhoeddi neu'i newid gellir apelio yn erbyn:

3)Yr anghenion a nodir o fewn datganiad, a'r cymorth arbennig sy'n cael ei baratoi i ddiwallu'r anghenion hynny (rhannau 2 a 3 y datganiad).
4)Enw'r ysgol lle caiff y plentyn ei leoli (rhan 4 y datganiad).
5)Yr AALl heb enwi ysgol.
6)AALl yn gwrthod newid yr ysgol a enwyd o fewn y datganiad, pan fydd y datganiad o leiaf yn flwydd oed.
7)AALl yn gwrthod ailasesu anghenion pan nad oes asesiad newydd wedi'i gynnal o fewn y chwe mis blaenorol.
8)Penderfyniad AALl i ganslo datganiad, a

Nghymru, naill ai am asesiad neu ddarpariaeth i ddiwallu AAA eu plentyn, mae ganddynt hawliau statudol i apelio i'r Tribiwnlys. Oni fydd amgylchiadau eithriadol, rhaid i apelau gael eu gwneud o fewn dau fis i'r penderfyniad sy'n destun anghydfod. Yn yr un modd, pan fydd rhieni'n ystyried bod y rhai sy'n gyfrifol am addysg eu plant wedi gwahaniaethu yn eu herbyn ar sail anabledd, gallant wneud hawliadau o wahaniaethu ar sail anabledd i'r Tribiwnlys[7]. Fel arfer, rhaid i hawliadau o anabledd gael eu gwneud o fewn chwe mis i'r achos diwethaf honedig o wahaniaethu. Fodd bynnag, os bydd rhieni wedi defnyddio gwasanaeth cymodi'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, rhaid gwneud hawliadau o fewn 9 mis i'r achos honedig o wahaniaethu.

3.5 Gall y Tribiwnlys wrando ar yr apelau a'r hawliadau, neu gall y rhieni eu tynnu yn ôl, neu gall yr AALlau neu gyrff sy'n gyfrifol eu hildio.

3.6 Pan fydd apêl neu achos yn cael ei benderfynu gan y Tribiwnlys a'r rhiant neu'r ymatebydd o'r farn bod penderfyniad y Tribiwnlys yn anghywir yn ôl y gyfraith, gallant wneud apêl i'r Uwch Dribiwnlys[8].

3.7 Ar hyn o bryd mae gan 80,618 o ddisgyblion yng Nghymru angen arbennig ond nid oes ganddynt ddatganiad[9]; mae gan 14,994 ychwanegol ddatganiad o anghenion arbennig[10]. Yn ystod y flwyddyn Dribiwnlys ddiwethaf, 1 Medi 2007 – 31 Awst 2008, roedd 94 o apelau wedi'u cofrestru gan y Tribiwnlys. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae nifer yr apelau wedi gostwng, ar ôl cyrraedd y nifer uchaf yn 2005/06, sef 150 o gofrestriadau. Adroddodd y Tribiwnlys fod mwy na 62% o'r holl apelau wedi cael eu tynnu yn ôl gan rieni neu eu hildio gan AALlau cyn gwrandawiad. Yn hanesyddol, mae dwy ran o dair o'r holl apelau wedi ymwneud â phlant o oedran ysgol gynradd.

3.8 Gwnaed 9 hawliad o wahaniaethu ar sail anabledd i'r Tribiwnlys y llynedd (ni wnaed unrhyw hawliadau yn y flwyddyn gyfredol o fis Medi 2008).

3.9 Mae adroddiadau blynyddol y Tribiwnlys wedi tynnu sylw at y dosbarthiad anghyson o apelau, ar sail AALl, yn ystod y pum mlynedd diwethaf, gydag un neu ddau AALl yn gyfrifol am ganrannau mawr anghymesur o gyfanswm nifer yr apelau. Mae adroddiadau blynyddol i'w gweld yn http://www.sentw.gov.uk.

*Amcanion*

---

9)Penderfyniad AALl i beidio â diwygio datganiad yn dilyn ailasesiad

[7] Gellir gwneud hawliad ar un neu ragor o'r seiliau canlynol: addysg a "gwasanaethau cysylltiedig" (gall hyn fod yr addysgu a ddarperir yn yr ysgol ond hefyd gall gynnwys beth sy'n digwydd yn ystod amser egwyl a gweithgareddau fel clybiau ysgol, cerddorfeydd, dramâu a thripiau neu ymweliadau), gwaharddiadau tymor penodedig o ysgolion a gynhelir, a derbyniadau i ysgolion annibynnol, a gwaharddiadau tymor penodedig a pharhaol ohonynt.

[8] Mae'r Uwch Dribiwnlys yn asiantaeth weithredol o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, llys cofnodion, ag awdurdodaeth ledled y Deyrnas Unedig. Fe'i sefydlwyd gan y Senedd o dan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 a daeth i fodolaeth ar 3 Tachwedd 2008

[9] http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2008/hdw200808071/?lang=cy

[10] http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2008/hdw200806182/?lang=cy

3.10 Amcan sylfaenol y Mesur hwn yw rhoi hawliau cyfartal i wneud apêl i rieni a'u plant. Nid yw'r Mesur yn cyfyngu ar hawliau plant ar sail oedran neu gymhwysedd, ond gellir gwneud apêl neu hawliad ar ran plentyn gan "gyfaill achos" os nad yw'r plentyn yn teimlo'n ddigon hyderus i gychwyn neu gymryd rhan yn y broses. (Mae enghreifftiau o bwy all weithredu fel cyfaill achos i'w gweld ar dudalen 13.) Bydd yr un dyddiadau cau ar gyfer gwneud apelau/hawliadau yn berthnasol i blant a'u rhieni. Gall y naill a'r llall wneud apelau/hawliadau ar yr un sail neu ar sail wahanol, gyda'r Tribiwnlys yn cael pŵer i bennu a ddylid cydgyfnerthu apelau/hawliadau gan bartïon niferus.

3.11 Nod y Mesur yw sicrhau bod hawl plant yn cael ei wireddu a bod modd diwallu eu hanghenion mewn amgylchiadau lle na fydd eu rhieni'n gwneud apelau neu hawliadau o'r fath, naill ai o ddewis neu oherwydd ffactorau eraill.

3.12 Bydd y Mesur yn rhan o gyfres o fentrau sydd wedi'u hanelu at gynyddu cyfraniad plentyn yn y broses gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â hawliadau ac apelau Tribiwnlys. Bydd gweithredu arall yn cynnwys adolygu'r Rheoliadau Tribiwnlys[11] cyfredol, ac adolygiad rhannol o God Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.

*Cynllun gweithredu*

3.13 Bydd y Mesur yn cyflawni ei amcanion mewn dau gam:

- Bydd Cyfnod 1 yn cael ei gynnal fel cynllun treialu a gwerthuso;
- Bydd Cyfnod 2 yn cynnwys cyflwyno hawliau i blant ar lefel Cymru gyfan.

3.14 Bydd y cyfnod treialu yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n rhagnodi nifer ac enwau'r AALlau hynny sy'n cymryd rhan yn y cyfnod treialu a thra phery'r cyfnod, hyd at uchafswm o 40 mis. Bydd y treialu, a fydd yn agored i graffu trwyadl drwy brosiect ymchwil gweithredu, yn darparu asesiadau meintiol ac ansoddol a fydd yn seiliedig ar brofiadau'r holl randdeiliaid megis yr apelyddion/hawlwyr, y Tribiwnlys, AALlau, Darparwyr Eiriolaeth, a chynrychiolwyr. Bydd y cyfnod treialu yn gyfle i werthuso'r defnydd ymarferol o'r hawliau, y cyfluniad a'r ddarpariaeth o'r adnoddau gwasanaethau angenrheidiol.

3.15 Bydd y canlyniadau a'r argymhellion sy'n deillio o'r cyfnod treialu a gwerthuso yn llywio'r modd y caiff yr hawliau eu cyflwyno'n llawn yng nghyfnod 2. Bydd y cyfnod treialu yn helpu i rannu enghreifftiau o arfer gorau ac i oresgyn yr anawsterau ymarferol o gymhwyso'r hawliau hyn i blant, pobl ifanc a'u "cyfeillion achos" yn yr ardaloedd lle cynhaliwyd y treialu.

## Effaith

[11] Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig 2001 (2001/600), fel y'u diwygiwyd a Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (Darpariaethau Cyffredinol a Gweithdrefn Hawliadau Anabledd) 2002 (2002/1085).

3.16 Bydd yr hawliau apelio newydd yn effeithio'n amrywiol ar ystod o randdeiliaid gan gynnwys plant a rhieni, AALlau, y Tribiwnlys, a'r sectorau gwirfoddol, eirioli a chyfreithiol.

3.17 Ymysg y rhai yr effeithir arnynt gan yr hawl hawliad anabledd mae'r rhanddeiliaid a restrir uchod yn ogystal â chyrff llywodraethu ysgolion a pherchenogion ysgolion annibynnol.

## RHOI GWYBOD I BLANT AM EU HAWLIAU APELIO

*Y Sefyllfa Bresennol*

3.18 Rhaid i AALlau ysgrifennu at rieni pan fyddant yn gwneud penderfyniadau y gellir apelio yn eu cylch mewn perthynas ag AAA, gan roi gwybod iddynt am:

- eu hawl i wneud apêl i'r Tribiwnlys;
- y terfynau amser ar gyfer gwneud apêl: (dau fis o adeg anfon y penderfyniad);
- y trefniadau a wnaed i gynnig gwasanaethau datrys anghytundebau, ac nad yw'r cyfryw wasanaethau yn effeithio ar eu hawl i apelio.

*Amcanion*

3.19 Bydd y Mesur hwn yn ei gwneud yn ofynnol i AALlau ysgrifennu at rieni a phlant i roi gwybod iddynt am eu hawliau statudol ac am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt. Bydd hyn yn cynnwys yr hawl i blant neu'u cyfaill achos ddefnyddio eiriolwr annibynnol. Bydd y canllawiau'n nodi sut gellir rhoi'r wybodaeth hon i blant mewn ffyrdd gwahanol a dealladwy.

3.20 Mae'r egwyddor o gynnwys plant a phobl ifanc mewn prosesau asesu a phenderfynu cyn apêl wedi ennill ei phlwyf. Er na ragwelir y bydd nifer fawr o blant yn apelio yn sgil hyn, bydd rhoi gwybod iddynt am eu hawliau o'r cychwyn cyntaf yn sicrhau y gallant fanteisio ar eu hawl, gan ddangos parch tuag atynt a pharodrwydd i wrando ar eu safbwyntiau.

3.21 Er mai dyletswydd yr AALlau fydd hyn, dylai ysgolion, Cydgysylltwyr AAA ac eraill fynd ati i sicrhau bod plant yn ymwybodol o'u hawliau.

## MYNEDIAD I BLANT I WASANAETHAU PARTNERIAETH A DATRYS ANGHYTUNDEBAU

*Y Sefyllfa Bresennol*

3.22 Mae Deddf Addysg 1996 yn ei gwneud yn ofynnol i AALlau drefnu i rieni plant ag AAA gael mynediad i Wasanaethau Partneriaethau Rhieni [12]. Rhaid i'r gwasanaethau hyn ddarparu cyngor a gwybodaeth am AAA. Rhaid i'r AALlau gymryd camau priodol i sicrhau bod rhieni, ysgolion, penaethiaid

[12] Mewnosodwyd adran 322A o Ddeddf Addysg 1996 gan adran 2 o Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 (SENDA 2001)

ysgolion ac eraill a ystyrir yn briodol, yn ymwybodol o wasanaethau partneriaethau rhieni.

3.23 Ar hyn o bryd, er mwyn cyflawni eu dyletswyddau, mae AALlau yn trefnu contractau â darparwyr o'r sector gwirfoddol.

3.24 Mae hefyd yn ofynnol i AALlau wneud trefniadau datrys anghytundebau er mwyn annog mynd ati'n gynnar, mewn ffordd anffurfiol, i osgoi neu ddatrys anghydfodau rhwng

- rhieni plant ag AAA a'r AALl; a .
- rhieni plant ag AAA ac ysgolion, mewn perthynas â'r ddarpariaeth AAA ar gyfer y plentyn[13].

*Amcanion*

3.25 O dan y Mesur, dyletswydd yr AALlau fydd ad-drefnu eu gwasanaethau neu drefniadau presennol er mwyn cymryd i ystyriaeth hawl plant i wneud apelau a hawliadau. Y bwriad yw caniatáu i blant gael mynediad i wybodaeth niwtral a gwasanaethau datrys anghytundebau. Bydd rheoliadau gweithdrefnol y Tribiwnlys yn cael eu diwygio i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n barti i apêl nodi pa gamau a gymerwyd ganddynt i ddatrys yr anghydfod. Bydd disgwyl bod y partïon wedi achub ar y cyfle i ddatrys yr anghydfod rhyngddynt mewn ffordd anffurfiol, lle bo modd, yn arbennig lle bo'r achos yn ymwneud â phlant. Caiff safonau gofynnol ar gyfer gwasanaethau partneriaeth a datrys anghytundebau eu sefydlu yng Nghod Ymarfer AAA Cymru. Bydd hyn yn effeithio ar AALlau a'r sector gwirfoddol.

**DYLETSWYDD NEWYDD AR AALlau I ROI MYNEDIAD I WASANAETHAU EIRIOLI ANNIBYNNOL ER MWYN CYNORTHWYO GYDA PHROSESAU DATRYS, PARATOI ACHOSION APÊL/HAWLIO, A CHYNNIG CEFNOGAETH NEU GYNRYCHIOLAETH MEWN GWRANDAWIADAU.**

*Y Sefyllfa Bresennol*

3.26 Ar hyn o bryd, gall rhieni sy'n gwneud apelau neu hawliadau ddefnyddio "Cefnogwr Annibynnol i Rieni", sy'n gallu rhoi cymorth iddynt baratoi achos ac, yn ôl y gofyn, ddarparu cefnogaeth neu gynrychiolaeth yn ystod gwrandawiad y Tribiwnlys. Ni roddir cynrychiolaeth gyfreithiol i'r rhan fwyaf o rieni gerbron y Tribiwnlys; nid oes hawl i gael arian cyhoeddus ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol. Ar hyn o bryd, nid yw'n ofyniad statudol darparu cefnogaeth eiriolaeth i'r plant eu hunain. Mae gan rai AALlau eisoes drefniadau i ddarparu gwasanaethau eirioli cyffredinol i blant yn eu hardaloedd nhw, ond mae'n bosibl na fydd gan y gwasanaethau hyn y profiad sydd ei angen o dan amgylchiadau o'r fath.

*Amcanion*

3.27 Wrth roi hawliau cyffredin i blant a phobl ifanc wneud apelau a hawliadau gerbron y Tribiwnlys, rhaid darparu fframwaith priodol i'w cefnogi i drafod ac, yn ôl y gofyn, i'w gwneud yn haws iddynt ddefnyddio'r hawliau hynny. Bydd y

[13] Mewnosodwyd Adran 322B o Ddeddf Addysg 1996 gan adran 3 o SENDA 2001.

Mesur yn sicrhau bod plant yn gallu cael gwybodaeth niwtral am eu dewisiadau. Bydd plant sy'n ystyried dilyn y broses yn gallu defnyddio gwasanaeth eirioli annibynnol, a bydd yn ofynnol i'r AALlau drefnu hyn. Bydd gan AALlau ddyletswydd statudol i roi gwybod i blant sut mae cael mynediad i'r gwasanaethau hyn.

3.28 Bwriedir i drefniadau eirioli fod yn ddigon eang i gynnwys y cyfrifoldeb i gefnogi, cynorthwyo a hysbysu'r awdurdodau priodol am bryderon ynglŷn â lles plentyn. Bydd safonau gofynnol yn cael eu gosod yn y rheoliadau neu yng Nghod Ymarfer AAA Cymru.

3.29 Pan fydd "cyfaill achos" yn gwneud apêl ar ran plentyn, bydd gan yr unigolyn hwnnw hawl hefyd i ddefnyddio'r trefniadau eirioli annibynnol. Gallai "cyfaill achos", er enghraifft, fod yn rhiant, yn frawd neu'n chwaer, yn eiriolwr, yn athro neu, yn achos Plant sy'n Derbyn Gofal (lle mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn), yn ofalwr maeth neu'n weithiwr cymdeithasol.

*Cynllun Cyflawni*

3.30 Yn absenoldeb unrhyw gymaryddion uniongyrchol i bennu'r nifer sy'n debygol o ddefnyddio'r hawl i wneud apelau/hawliadau ac, yn sgil hynny, y nifer sy'n debygol o ddefnyddio gwasanaethau eirioli, bydd y cyfnod treialu yn sylfaen dystiolaeth hanfodol ar gyfer llywio'r broses o gyflunio a gwella trefniadau eirioli a dod o hyd i adnoddau ar eu cyfer.

3.31 Dylid ystyried comisiynu gwasanaeth eirioli i gynorthwyo plant i wneud apelau/hawliadau (fel y manylir yn y ddogfen hon) o fewn y Model ar gyfer Cyflwyno Gwasanaethau Eirioli i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru. Er mai cyfrifoldeb AALlau fydd cynnig gwasanaeth eirioli annibynnol, o dan y Model Gwasanaeth newydd hwn, y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc (CYPP) ddylai integreiddio a hwyluso'r broses o gomisiynu'r holl wasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc ar lefel ranbarthol. Diben hyn yw:

- Gwneud y gwasanaeth eirioli yn fwy annibynnol
- Ei gwneud yn haws i'r cwsmer gael mynediad iddo
- Ei gwneud yn haws atgyfeirio plant a phobl ifanc
- Gwella cysondeb a thegwch ledled Cymru

3.32 Dylai AALlau sicrhau eu bod yn gweithio'n agos gyda'r CYPPau a chydweithwyr rhanbarthol i roi'r gwasanaeth hwn ar waith.

**PŴER GWEINIDOGION CYMRU I WNEUD IS-DDEDDFWRIAETH I REOLEIDDIO AWDURDODAETH Y TRIBIWNLYS O RAN GWAHANIAETHU AR SAIL ANABLEDD.**

*Y Sefyllfa Bresennol*

3.33 Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurf rheoliadau i lywodraethu awdurdodaeth AAA y Tribiwnlys. Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder (gyda chytundeb Gweinidogion Cymru) sy'n gyfrifol

am wneud rheoliadau i lywodraethu gweithdrefn gwahaniaethu ar sail anabledd y Tribiwnlys.

*Amcanion*
3.34 Er mwyn rhoi ei lawn effaith i'r cynnig y gall plant anabl eu hunain wneud hawliad i'r Tribiwnlys mewn perthynas â gwahaniaethu, dylai Gweinidogion Cymru fod â'r pŵer i wneud rheoliadau i lywodraethu awdurdodaeth y Tribiwnlys o ran gwahaniaethu ar sail anabledd.

3.35 Bydd yn rhaid i'r rheoliadau hyn fod mewn grym ar ddechrau'r cyfnod treialu a gwerthuso, er mwyn caniatáu i'r Tribiwnlys ddelio â hawliadau gwahaniaethu a wneir gan blant yn yr ardaloedd lle cynhelir y treialu.

3.36 Bydd y Mesur yn diddymu swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o ran gwneud rheoliadau, ac yn rhoi'r swyddogaethau hynny i Weinidogion Cymru. Bydd hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru deilwra'r swyddogaethau hynny i ddiwallu anghenion a blaenoriaethau pobl Cymru.

3.37 Y bwriad yw i'r is-ddeddfwriaeth roi mwy o gyfleoedd i ystyried safbwyntiau plant yn ystod achosion yn y Tribiwnlys. Er mwyn sicrhau dull cyson, eglur ar gyfer y sawl sy'n defnyddio'r Tribiwnlys, y bwriad yw cynnwys mewn un offeryn statudol y rheoliadau presennol sy'n rheoli gweithdrefn y Tribiwnlys mewn perthynas ag AAA a gwasanaethu ar sail anabledd (gan gynnwys terfynau amser ar gyfer cydymffurfio â'i orchmynion).

## **RHOI'R CYFRIFOLDEB AR WEINIDOGION CYMRU I YSTYRIED CWYNION YNGLŶN Â PHEIDIO Â GWEITHREDU GORCHMYNION GWAHANIAETHU AR SAIL ANABLEDD.**

*Y Sefyllfa Bresennol*
3.38 Mae gan y Tribiwnlys bŵer i orchymyn bod y corff cyfrifol yn cymryd camau rhesymol i unioni'r sefyllfa o wahaniaethu ar sail anabledd. Gall y Tribiwnlys hefyd wneud gorchymyn i'w gwneud yn ofynnol cymryd camau i atal gwahaniaethu yn erbyn plant anabl yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys hyfforddi staff ysgolion; llunio canllawiau newydd i staff; newid polisïau ysgolion neu AALlau; adleoli cyfleusterau (ond heb symud i safle arall yn ddaearyddol); cyhoeddi ymddiheuriadau ysgrifenedig. Nid oes gan y Tribiwnlys awdurdod i orchymyn talu iawndal.

3.39 Nid oes gan y Tribiwnlys bŵer i fonitro ei orchmynion na'u rhoi ar waith. Gweinidogion Cymru a/neu'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n gyfrifol am ystyried cwynion ynglŷn â diffyg cydymffurfio â gorchmynion AAA y Tribiwnlys. Fodd bynnag, yn achos diffyg cydymffurfio â gorchmynion anabledd, rhaid cyflwyno cwynion i'r Ysgrifennydd Gwladol.

3.40 Er enghraifft, datrysiad cyffredin yw gorchymyn bod y corff sy'n gyfrifol yn llunio ymddiheuriad ysgrifenedig. Mae'n bosibl na fydd y sawl yr ymddiheurir wrtho yn teimlo bod yr ymddiheuriad yn dderbyniol, ac nad yw'r corff sy'n gyfrifol wedi ymddiheuro yn unol ag ystyr y gorchymyn. Yr Ysgrifennydd

Gwladol sy'n gyfrifol am y weithdrefn gwyno bresennol, felly ei gyfrifoldeb ef fyddai ymchwilio i unrhyw gŵyn debyg mewn perthynas â chydymffurfio â gorchmynion y Tribiwnlys.

*Amcanion*

3.41 Y nod yw diddymu swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â'r weithdrefn gwyno, a rhoi'r swyddogaethau hynny i Weinidogion Cymru. Bydd hyn yn creu dull cyson, ac yn sicrhau yr ymdrinnir yng Nghymru â chwynion yn erbyn diffyg cydymffurfiaeth â phenderfyniadau'r Tribiwnlys datganoledig.

3.42 O ran ei effaith, pennwyd eisoes mai ychydig iawn o hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd sy'n cael eu gwneud i'r Tribiwnlys, gyda nifer llai eto yn cael gwrandawiad. O blith y 9 hawliad a wnaed yn ystod y flwyddyn rhwng Medi 2007 a Medi 2008, dim ond un a gymeradwywyd yn y pen draw.

3.43 Er mai nod y swyddogaeth newydd hon yw egluro'r sefyllfa i ddefnyddwyr yng Nghymru, a rhoi mwy o gysondeb, mae'n annhebygol iawn o roi baich ychwanegol sylweddol ar Weinidogion Cymru.

3.44 Bydd yn rhaid i swyddogaethau newydd Gweinidogion Cymru fod mewn grym ar gychwyn y cyfnod treialu er mwyn caniatáu i ddefnyddwyr gwyno os oes angen.

## GALLUOGI GWEINIDOGION CYMRU I YMYRRYD A RHOI CYFARWYDDIADAU I AWDURDODAU ADDYSG LLEOL MEWN PERTHYNAS Â'U DYLETSWYDDAU NEWYDD O DAN DDEDDF GWAHANIAETHU AR SAIL ANABLEDD 1995

*Y Sefyllfa Bresennol*

3.45 Ar hyn o bryd, mae gan Weinidogion Cymru bwerau ("pwerau diofyn") o dan Ddeddf Addysg 1996 i ymyrryd a rhoi cyfarwyddiadau i AALlau o dan amgylchiadau lle mae AALl ysgol a gynhelir yn gweithredu, neu'n bwriadu gweithredu, yn afresymol wrth gyflawni ei swyddogaethau addysg, lle mae'r AALl yn methu â chyflawni dyletswydd addysg a osodwyd arno neu lle mae'n methu â chyflawni ei swyddogaethau addysg yn unol â safon sy'n ddigonol (neu ddim o gwbl). Mae'r pwerau diofyn hyn yn gymwys i'r dyletswyddau apelio AAA a osodir ar AALlau o dan y Mesur arfaethedig.

3.46 Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw bŵer cyfatebol gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r dyletswyddau o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 a osodir ar AALlau gan y Mesur.

*Amcanion*

3.47 Yr amcan yw sicrhau bod gan Weinidogion Cymru bwerau i ymyrryd a rhoi cyfarwyddiadau i AALlau yng nghyswllt eu swyddogaethau o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (fel y'u diwygiwyd gan y Mesur hwn) sy'n gyfochrog â'u pwerau gorfodi presennol mewn perthynas â

swyddogaethau AAA yr AALlau. Bydd y pŵer newydd yn caniatáu rhoi dull cyson ar waith ac yn sicrhau bod modd i Weinidogion Cymru ymdrin â materion sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth AALl â'i swyddogaethau gwahaniaethu ar sail anabledd newydd ym maes addysg.

3.48 O ran ei effaith, pennwyd eisoes mai ychydig iawn o hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd sy'n cael eu gwneud i'r Tribiwnlys, gyda nifer llai eto yn cael gwrandawiad. O'r 9 hawliad a wnaed yn ystod y flwyddyn rhwng Medi 2007 a Medi 2008, dim ond un ohonynt fu'n llwyddiannus yn y pen draw. Yn hynny o beth, mae'n annhebygol iawn y bydd y pŵer newydd yn rhoi pwysau ychwanegol sylweddol ar Weinidogion Cymru.

## Y CWRICWLWM YNG NGHYMRU

3.49 Bydd y Cyfnod Sylfaen (3 i 7 oed) yn disodli cyfnod allweddol 1 (5 i 7 oed) y Cwricwlwm Cenedlaethol. Yn sgil hyn, rhaid dileu'r cysyniad a phob cyfeiriad at gyfnod allweddol 1 o'r llyfr statud.

3.450 Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol yng Nghymru a Lloegr yn cyfeirio at 'Foundation Stage'. Er eglurder a bod yn unigryw i Gymru, cynigir newid 'Foundation Stage' yn 'Foundation Phase' yn y ddeddfwriaeth. Nid yw hyn yn berthnasol i'r ymadrodd Cymraeg. Bydd hyn yn adlewyrchu'r cwricwlwm sy'n cael ei ddarparu, a'r derminoleg a ddefnyddir ar gyfer plant rhwng 3 a 7 oed yng Nghymru.

3.51 Yn sgil cyflwyno'r cyfnod sylfaen mewn ysgolion yng Nghrymu, bydd angen diwygio deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth.

Dileu cyfnod allweddol 1 o'r llyfr statud

3.52 Ni fydd cyfnod allweddol 1 yn bodoli mwyach yng Nghymru o 1 Awst 2010 yn achos pob plentyn rhwng 5 a 6 oed, ac o 1 Awst 2011 yn achos pob plentyn rhwng 6 a 7 oed. Mae deddfwriaeth ddiweddar wedi datgymhwyso gofynion cyfnod allweddol 1 y cwricwlwm, a bydd hynny'n gymwys i ddisgyblion rhwng 5 a 6 oed o 1 Awst 2010, ac o 1 Awst 2011 i ddisgyblion rhwng 6 a 7 oed. Bydd angen dileu cyfnod allweddol 1 yn barhaol o'r llyfr statud o 2011, a Mesur Cynulliad fydd yn darparu'r drefn ar gyfer gwneud y newid hwn.

3.53 Yna, bydd y darpariaethau hyn yn cael eu rhoi ar waith gan Orchymyn, i'w wneud yn ddiweddarach, a daw i rym erbyn 1 Awst 2011 fan bellaf.

## DEDDF DYSGU A SGILIAU 2000

### Penderfynu ar yr ysgol neu'r sefydliad perthnasol ac ar hawliau disgyblion o dan y cwricwlwm lleol

3.54 Ar hyn o bryd, mae'r ddeddfwriaeth yn nodi y pennir ysgol neu sefydliad perthnasol disgybl yn ystod cyfnod allweddol 4, er mwyn rhoi amser i ysgolion a sefydliadau addysg bellach gynllunio'r cyrsiau i'w darparu i'r grŵp oedran 16-18.

3.55 Pennaeth ysgol y disgybl fydd yn penderfynu ar yr ysgol neu'r sefydliad perthnasol sy'n debygol o fod yn gyfrifol am ddarparu'r mwyafrif o'i addysg pan na fydd y disgybl hwnnw o oedran ysgol gorfodol mwyach.

3.56 Wedi i'r pennaeth benderfynu arno, bydd yr ysgol neu'r sefydliad perthnasol wedi'i bennu'n derfynol. O ganlyniad i hynny, bydd gan yr ysgol neu'r sefydliad perthnasol rwymedigaeth i sicrhau bod hawliau'r disgybl o dan y cwricwlwm lleol yn cael eu darparu.

3.57 Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddarpariaeth yn y ddeddfwriaeth i ymdrin ag achosion lle nad yw disgyblion yn mynychu'r ysgol neu'r sefydliad perthnasol a bennwyd ar eu cyfer gan y pennaeth. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd achosion lle bydd disgybl yn mynychu ysgol wahanol neu'n mynychu coleg chweched dosbarth. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd gan yr ysgol neu'r sefydliad perthnasol ddyletswydd i ddarparu'r cyrsiau penodedig er nad yw'r disgybl yn eu mynychu.

3.58 Bydd y diwygiad technegol hwn yn unioni'r sefyllfa ac yn golygu, os na fydd y disgybl yn mynychu'r ysgol neu'r sefydliad perthnasol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, na fydd yr ysgol neu'r sefydliad perthnasol hwnnw'n gyfrifol am ddarparu'r cwrs i'r disgybl.

**Penderfyniadau penaethiaid neu brifathrawon mewn perthynas â hawliau a hawliau disgyblion o dan y cwricwlwm lleol**

3.59 O dan y ddeddfwriaeth bresennol, mae gan ddisgybl hawl i ddilyn y cwrs a ddewisir ganddo oni bai y bydd pennaeth neu brifathro ysgol neu sefydliad perthnasol y disgybl, cyn dechrau'r cyfnod hawl, yn penderfynu nad oes gan y disgybl hawl i ddilyn y cwrs hwnnw. Yn ôl y diffiniad, mae'r cyfnod hawl yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd (1 Medi).

3.60 Rhoddir gwybod i ysgolion cyfnod allweddol 4 am lefelau cyrhaeddiad academaidd y disgybl yn ystod cyfnod allweddol 4 ar ddiwedd mis Awst. Os yw'r disgybl yn mynychu'r un ysgol berthnasol ar gyfer addysg ôl-orfodol 16-18 ag a fynychwyd ganddo ar gyfer cyfnod allweddol 4, mae hyn yn achosi anawsterau ymarferol. Er enghraifft, yn y flwyddyn bresennol, un diwrnod gwaith yn unig fyddai gan bennaeth ysgol, rhwng cael gwybod am ganlyniadau'r disgybl a dechrau'r flwyddyn academaidd ar 1 Medi, er mwyn penderfynu a oes gan y disgybl hwnnw hawl i ddilyn y cwrs o'i ddewis.

3.61 Hefyd, am mai ysgol cyfnod allweddol 4 y disgybl yn unig sy'n cael ei hysbysu am ei ganlyniadau yng nghyfnod allweddol 4, ni fydd gan bennaeth

neu brifathro ysgol neu sefydliad arall fynediad at ei gofnod o gyrhaeddiad addysg er mwyn llywio ei benderfyniad ynghylch hawl y disgybl cyn 1 Medi.

3.62 Bydd y diwygiad hwn yn caniatáu gwneud penderfyniadau cyn dechrau'r cyfnod hawl, neu o fewn 3 wythnos i hynny. Bydd hefyd yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn gweithredu yn ôl y bwriad. Yn draddodiadol, mae sefydliadau yn defnyddio wythnosau cyntaf y flwyddyn academaidd at ddibenion cynefino ac i bennu'n derfynol y trefniadau ar gyfer y ddarpariaeth addysg gan ddefnyddio canlyniadau cyfnod allweddol 4.

# 4. Ymgynghori

4.1 Yn ystod cylch o gyfarfodydd Grŵp Defnyddwyr y Tribiwnlys, a gynhaliwyd yn y gogledd, y de a'r gorllewin yn ystod 2007, bu swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gofyn i'r rhai a oedd yn bresennol am gefnogaeth i'r egwyddor o estyn yr hawl i apelio i blant. Roedd cefnogaeth unfrydol i'r egwyddor. Mae'r grwpiau defnyddwyr yn cynnwys cynrychiolwyr Awdurdodau Lleol, y Tribiwnlys, y sector gwirfoddol, rhieni a Partneriaethau Rhieni.

4.2 Ym mis Rhagfyr 2007, sefydlwyd Gweithgor Apelau Plant i ystyried goblygiadau ymarferol cynnig y Comisiynydd Plant. Roedd y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr swyddfa'r Comisiynydd Plant, Tribiwnlys AAA Cymru, Tros Gynnal, SNAP Cymru, y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS Cymru), un Awdurdod Lleol (a enwebwyd gan Ddirprwy Gyfarwyddwyr Addysg Cymru, Anghenion Dysgu Ychwanegol), y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (ymgynghorai statudol), a swyddogion o Is-adran Cymorth i Ddysgwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru.

4.3 Ym mis Mai a mis Medi 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ddwy ddogfen ymgynghori "Llais a Dewis"[14]. Roedd y rhain yn gwahodd barn ar gynigion polisi i roi'r hawl i blant wneud apelau a hawliadau i'r Tribiwnlys.

4.4 Cynhyrchwyd fersiynau penodol ar gyfer plant a phobl ifanc hefyd. Cynhaliwyd gweithdai ychwanegol gyda chynghorau ysgolion mewn tair ysgol ledled Cymru, a chynhaliwyd dau weithdy cyhoeddus hefyd.

4.5 Ceisiwyd ymatebion gan ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys plant a phobl ifanc, Awdurdodau Addysg Lleol, Awdurdodau Esgobaethol, Mudiadau Gwirfoddol, Seicolegwyr Addysg, Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Gwasanaethau Plant, Cymdeithas y Cyfreithwyr, y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Llywydd y Tribiwnlys, Gwasanaethau Cymdeithasol, Undebau'r Athrawon, y Gwasanaeth Tribiwnlys, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru , rhanddeiliaid sy'n ymwneud ag Anghenion Addysgol Arbennig, a sampl o 10% o ysgolion.

4.6 Cafwyd cyfanswm o 198 o ymatebion.

[14] http://new.wales.gov.uk/consultations/closedconsultations/education/voicesandchoices/?lang=cy

4.7 Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru ar 26 Ionawr 2009, ac mae ar gael ar http://new.wales.gov.uk/consultations/closedconsultations/education/voicesandchoices/?skip=1&lang=cy

**Y Cwricwlwm yng Nghymru**

4.8 Nid ystyriwyd bod cynnal ymgynghoriad yn angenrheidiol nac yn briodol mewn perthynas â diwygio'r Cwricwlwm yng Nghymru. Diwygiadau technegol i'r ddeddfwriaeth yw'r rhain, ac maent yn berthnasol i'r newidiadau sy'n ofynnol i ddileu'r cyfeiriadau yn y llyfr statud at y cyfnod sylfaen cyntaf, ac i amnewid cyfeiriadau yn y llyfr statud at 'Foundation Stage' am 'Foundation Phase'. Nid yw hyn yn berthnasol i'r ymadrodd Cymraeg.

**NEWIDIADAU POLISI A FABWYSIADWYD YN SGIL YR YMGYNGHORIAD**

4.9 Mae'r polisi ynghylch ymestyn yr hawl i blant wneud apelau a hawliadau yn deillio o gynnig a wnaed gan y diweddar Peter Clark, Comisiynydd Plant cyntaf Cymru. Cynigiodd y Comisiynydd y dylai plant ag AAA gael yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys lle nad oedd eu rhiant/rhieni, am ba bynnag reswm, yn defnyddio eu hawl nhw i apelio fel rhiant. Lluniwyd yr ymgynghoriad yn seiliedig ar hyn.

4.10 Fodd bynnag, yn sgil yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, a'r trafodaethau â rhanddeiliaid wedi hynny, gwnaed tri newid allweddol i'r dull gweithredu yn sgil profiadau a barn y sawl a gymerodd ran:-

- Cyflwyno Cyfnod Treialu a Gwerthuso cyn cyflwyno'r polisi ledled Cymru;
- Creu hawl gyffredinol i blant wneud apelau a hawliadau, nad yw'n amodol ar y ffaith bod rhieni'n ildio eu hawliau neu'n peidio â'u defnyddio;
- Creu hawl gyffredinol i blant wneud apelau a hawliadau, nad yw'n amodol ar eu hoedran na'u galluedd.

***Cyfnod Treialu a Gwerthuso***

4.11 Roedd nifer sylweddol o'r ymatebwyr yn cefnogi'n benodol yr egwyddor y dylai plant gael yr hawl i wneud apelau/hawliadau. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o bryder ynglŷn â'r mecanweithiau, y cyllid a'r ddarpariaeth sy'n ofynnol i roi'r cynigion hyn ar waith. Cynigiodd nifer fach o'r ymatebwyr ddadleuon perswadiol o blaid treialu'r cynigion cyn eu cyflwyno'n llawn.

4.12 Penderfynwyd bwrw ymlaen â'r broses o roi cyfnod treialu ar waith, cyn cyflwyno'r hawl i wneud apêl/hawliad ledled Cymru gyfan. Mae'r dull hwn yn tanlinellu'r ymrwymiad i hawl plant i wneud apelau/hawliadau, mewn egwyddor ac yn ymarferol. Mae hefyd yn cymryd i ystyriaeth bryderon a ddaeth i'r amlwg yn ystod y broses ymgynghori, a bydd yn caniatáu datblygu a chyflunio'r gwasanaethau cymorth allweddol yn briodol.

**Creu hawl gyffredinol i blant wneud apelau a hawliadau, nad yw'n amodol ar y ffaith bod rhieni'n ildio eu hawliau neu'n peidio â'u defnyddio.**

4.13 Yn dilyn yr ymgynghoriad, penderfynwyd datblygu ymhellach gynnig y diweddar Gomisiynydd Plant y dylai plant gael yr hawl i apelio mewn amgylchiadau lle nad oedd eu rhiant/rhieni yn defnyddio eu hawl i apelio. Nid oedd datblygu'r hawliau amodol hyn yn ddigon i fodloni dyheadau Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â datblygu polisïau. Yn ogystal, byddai hyn yn gosod baich gweinyddol diangen ar yr AALlau a/neu'r Tribiwnlys i ganfod gan rieni a oeddent yn dymuno ildio eu hawliau; byddai hyn yn hynod anghymesur o ystyried cyn lleied o rieni sy'n gwneud apêl. Mae'n bosibl y byddai hefyd yn ymestyn yn sylweddol yr amser a gymerir i apêl neu hawliad y plentyn gyrraedd y Tribiwnlys. Pe byddai rhiant y plentyn yn gwneud apêl o fewn y terfyn amser o ddau fis, neu'n gwneud hawliad anabledd cyn pen chwe mis o'r weithred wahaniaethol honedig ddiwethaf, ni fyddai modd i'r plentyn wneud apêl na hawliad. Pe na bai'r rhiant wedi cymryd y camau hyn, byddai'r hawl yn trosglwyddo i'r plentyn, ac yn sgil hynny, er tegwch, byddai gan hwnnw chwe mis arall i wneud apêl neu hawliad. Byddai hyn yn broses drwsgl.

**Creu hawl gyffredinol i blant wneud apelau a hawliadau, nad yw'n amodol ar eu hoedran na'u galluedd**

4.14 Ymatebion amrywiol a gafwyd i'r ymgynghoriad mewn perthynas â chymhwysedd a'i asesu. Nid oedd unrhyw gonsensws amlwg. O ystyried y mater ymhellach yng nghyd-destun yr ymatebion, daethpwyd i'r casgliad y byddai gosod lefel cymhwysedd (boed yn oedran a/neu alluedd y plentyn) yn rhoi baich biwrocrataidd diangen ar yr AALlau a'r Tribiwnlys, ac y gallai hynny ymestyn y broses apelio. Gallai hefyd achosi mwy o bryder i'r plentyn pe byddai'n dymuno gwneud apêl/hawliad ond y penderfynir yn ddiweddarach nad yw'n pasio'r prawf cymhwysedd.

4.15 Bydd buddiannau plant yn parhau i gael eu diogelu, am y bydd modd i "gyfaill achos" wneud apêl neu hawliad ar ran plentyn, a hynny mewn amgylchiadau lle nad oedd y rhiant neu'r rhiant corfforaethol yn dymuno gwneud apêl, neu lle na allai'r plentyn wneud apêl oherwydd diffyg galluedd.

4.16 Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd rhiant yn penderfynu peidio ag apelio am fod ganddo anawsterau dysgu a/neu ddiffyg hyder i wneud hynny, ac y byddai'n well ganddo i berthynas fod yn gyfaill achos i'w blentyn. Pan fydd gan awdurdod lleol gyfrifoldeb rhiant dros blentyn gallai ganiatáu i weithiwr cymdeithasol y plentyn, neu'r gofalwr maeth y lleolwyd y plentyn gydag ef dros dro, fod yn gyfaill achos i'r plentyn.

## 5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

5.1 Ymhob un o'r achosion a ddisgrifir isod mae'r sail resymegol dros ddefnyddio is-ddeddfwriaeth yn dibynnu ar yr angen i osgoi gormod o fanylion neu i ganiatáu hyblygrwydd, o fewn cyfyngiadau'r egwyddorion a gyflwynwyd o fewn y Mesur ei hunan.

5.2 Bydd y Mesur yn sefydlu pwerau i:

**a) galluogi Gweinidogion Cymru i wneud Rheoliadau mewn perthynas ag awdurdodaeth gwahaniaethu ar sail anabledd y Tribiwnlys. Os yw Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol, bydd hefyd yn caniatáu iddynt wneud Rheoliadau newydd ar gyfer y Tribiwnlys a fydd yn cadarnhau ac yn diweddaru darpariaethau'r Rheoliadau Tribiwnlys AAA ac Anabledd presennol, gan fewnosod darpariaethau newydd o ganlyniad i Fesur y Cynulliad ac er mwyn rhoi grym i'r Mesur hwnnw.**

5.3 Mae'r pŵer hwn yn amodol, yn rhannol, ar ddiddymu swyddogaethau gwneud rheoliadau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ran 4 o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, a throsglwyddo'r swyddogaethau hynny i Weinidogion Cymru o dan y ddeddf honno. Ystyrir ei bod yn briodol dirprwyo'r pwerau hyn i Weinidogion Cymru er mwyn gallu mynd ati yng Nghymru i wneud yr holl reoliadau ar gyfer y Tribiwnlys datganoledig, yn unol â buddiannau, cyfleoedd i ddatblygu polisïau a chyfleoedd amserlennu deddfwriaethol Cymru. Ar hyn o bryd, mae gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud rheoliadau mewn perthynas ag awdurdodaeth AAA y Tribiwnlys; caiff y rhain eu gwneud o dan y weithdrefn negyddol gan eu bod yn weithdrefnol eu natur ac yn caniatáu hyblygrwydd. Am yr un rheswm mae'r rheoliadau gwahaniaethu ar sail anabledd, sy'n cael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar hyn o bryd, hefyd yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn negyddol.

5.4 Dim ond ar ôl ymgynghori â'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd[15] y gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer y Tribiwnlys.

5.5 Dylai rheoliadau mewn perthynas ag awdurdodaeth y Tribiwnlys o ran gwahaniaethu ar sail anabledd fod yn agored i'w craffu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y **weithdrefn negyddol** gan y bydd y rheoliadau yn weithdrefnol eu natur ac yn caniatáu hyblygrwydd pan fydd angen gwneud newidiadau. Mae'r weithdrefn hefyd yn adlewyrchu'r sefyllfa gyda phwerau tebyg Gweinidogion Cymru yn adran 336 o Ddeddf Addysg 1996 (a phwerau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 28J o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995).

[15] Paragraff 24 o Atodlen 7 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007

**b) galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i roi'r cynllun treialu ar waith gan ragnodi, er enghraifft, yr Awdurdodau Lleol hynny y gofynnir iddynt gynnal y cynllun treialu a dyddiad cychwyn y cynllun treialu hwnnw.**

5.6 Bydd y rheoliadau hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru dreialu hawliau plant i wneud apelau a hawliadau am gyfnod penodedig. Gall y rheoliadau hefyd ddarparu ar gyfer y canlynol:

- yr hawl a roddir i blant gan y Mesur hwn mewn perthynas ag apelau anghenion addysgol arbennig i fod yn berthnasol yn unig i blant y mae awdurdodau lleol penodedig yn gyfrifol amdanynt;
- dyletswyddau a roddir ar awdurdodau addysg lleol gan y Mesur hwn mewn perthynas ag apelau anghenion addysgol arbennig i fod yn berthnasol i awdurdodau addysg lleol penodedig yn unig;
- yr hawl a roddir i blentyn gan y Mesur hwn mewn perthynas â hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd i fod yn berthnasol yn unig i gorff sy'n gyfrifol am ysgol mewn ardaloedd penodedig; a
- dyletswyddau a roddir ar awdurdodau addysg lleol gan y Mesur hwn mewn perthynas â hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd i fod yn berthnasol i awdurdodau addysg lleol penodedig yn unig.

5.7 Gan y bydd y rheoliadau'n weinyddol eu natur ac yn pennu trefniadau manwl ynghylch sefydlu a gweithredu'r cynlluniau treialu, dylent fod yn agored i'r **weithdrefn negyddol.**

**c) galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyngor a gwybodaeth, gwasanaethau datrys anghydfodau a gwasanaethau eirioli annibynnol**.

5.8 Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi materion y mae'n rhaid i'r AALlau eu bodloni wrth drefnu'r ddarpariaeth o'r gwasanaethau hyn i blant. Er enghraifft, sicrhau bod gan y sawl a fydd yn darparu'r gwasanaethau brofiad neu hyfforddiant addas i gynorthwyo plant AAA neu blant anabl. Yn unol â hyn, dylai Rheoliadau o'r fath fod yn agored i'r **weithdrefn negyddol.**

**d) galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i blentyn gael cyfaill achos.**

5.9 Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi materion a fydd yn caniatáu i unigolyn arfer hawl plentyn i wneud apêl neu hawliad ar ran y plentyn neu i gyflwyno sylwadau ar ran plentyn er mwyn osgoi neu ddatrys anghydfodau gydag awdurdod lleol (mewn perthynas ag apêl) neu gorff sy'n gyfrifol (mewn perthynas â hawliad gwahaniaethu). Gan y bydd y rheoliadau'n weithdrefnol neu'n weinyddol eu natur dylent fod yn agored i'r **weithdrefn negyddol.**

**e) galluogi Gweinidogion Cymru, trwy Orchymyn, i wneud newidiadau i'r Mesur a nodwyd o ganlyniad i'r cynlluniau treialu a gwerthuso, neu unrhyw newidiadau a ddaw i'r amlwg ac yr ystyrir eu bod yn ofynnol wrth gyflwyno'r Mesur yn llawn.**

5.10 Bydd Adran 18 y Mesur yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru (trwy Orchymyn) i ychwanegu, dileu neu addasu darpariaethau yn y Mesur. Diben y pŵer yw galluogi Gweinidogion Cymru i roi effaith i unrhyw newidiadu a nodir gan y cyfnod treialu a gwerthuso sy'n angenrheidiol i roi effaith lawn i hawliau plant. Bydd y pŵer hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru addasu'r Mesur i ymdrin ag unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg ar ôl i'r Mesur gael ei gyflwyno'n gyffredinol ar draws Cymru.

5.11 Mae'r pŵer i wneud gorchymyn o dan adran 18 yn cynnwys pŵer i:

- ychwanegu, dileu neu addasu hawliau;
- diwygio neu ddiddymu darpariaethau Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996;
- diwygio neu ddiddymu darpariaethau Rhan 4 o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995; a
- gwneud diwygiadau canlyniadol a diddymiadau i ddarpariaethau'r Deddfau hynny.

5.12 Wrth arfer eu pŵer i addasu unrhyw ddarpariaeth yn y Mesur, rhaid i Weinidogion Cymru roi ystyriaeth i'r adroddiad ar y treialu sy'n ofynnol gan adran 17(5).

5.13 Yn ôl adran 17(5) mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad ar sut y rhoddwyd darpariaethau'r cyfnod treialu ar waith a pha mor effeithiol yr oeddent i hybu lles plant. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod copi o'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

5.14 Dylai gorchymyn o dan adran 18 fod yn agored i'w graffu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y **weithdrefn uwchgadarnhaol** sy'n cael ei nodi yn adran 22A. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, wrth wneud gorchymyn o dan adran 18, ymgynghori ag unigolion a chanddynt fuddiant ac y mae eu cynigion yn effeithio arnynt, ystyried canfyddiadau'r adroddiad treialu, ac ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.  Bydd hyn yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i drafod a chraffu ar egwyddorion y newidiadau arfaethedig i'r Mesur.

**f) galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn i ddiwygio neu ddiddymu unrhyw Ddeddf Seneddol neu is-ddeddfwriaeth, sy'n cael ei basio neu ei wneud yn y dyfodol, sy'n diddymu Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 a phŵer i ddiwygio neu ddiddymu unrhyw ddarpariaeth o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 oddi mewn i'r Mesur arfaethedig ei hun, os bydd angen.**

5.15 Mae adran 19A yn cyflwyno pŵer sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth bresennol neu ddeddfwriaeth yn y dyfodol sy'n diddymu ac yn ailddeddfu Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Bydd y pŵer yn sicrhau bod y darpariaethau gwahaniaethu ar sail anabledd a gynhwysir yn y Mesur yn cael eu cadw drwy ganiatáu i Weinidogion Cymru eu hailosod yn eu trefn yn narpariaethau cyfatebol y ddeddfwriaeth gydraddoldeb newydd.

**g) Cychwyn**

5.16 Mae adran 23 yn pennu'r trefniadau ar gyfer cychwyn y Mesur mewn perthynas ag adrannau 22, 22A, 23 a 24. Mae holl ddarpariaethau eraill y Mesur yn dod i rym pan fydd Gweinidogion Cymru'n eu cychwyn drwy orchymyn. Yn ôl yr arfer cyffredin ar gyfer cychwyn gorchmynion, ni fydd gweithdrefn yn gymwys i orchmynion o'r fath.

# 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

6.1 Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Mesur hwn yn Rhan 2.

## RHAN 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol

# 7. Opsiynau

7.1 Nid oes angen cynnal asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i ailgyflwyno'r "Foundation Stage" yn "Foundation Phase" (yn Saesneg) yn ffurfiol. Paratowyd yr asesiad hwn yng nghyswllt hawl plant i wneud apêl neu hawliad a darpariaethau cysylltiedig yn unig.

7.2 O dan ddeddfwriaeth bresennol y Tribiwnlys, nid oes digon o gyfleoedd ymarferol ac nid yw'n ofynnol i ystyried safbwyntiau plant yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, nac i ystyried eu safbwyntiau os nad yw eu rhieni'n apelio. Nid oes gan blant hawl i wneud apelau na hawliadau i'r Tribiwnlys.

7.3 Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i AALlau sy'n ymateb i apelau gan rieni nodi, yn eu datganiadau achos, "the views of the child concerning the issues raised by the appeal, or the reasons why the authority has not ascertained those views". Bydd gan y plentyn sy'n destun gwrandawiad apêl hawl i fod yn bresennol yn y gwrandawiad, a hefyd "the Tribunal may permit the child to give evidence and to address the Tribunal on the subject matter of the appeal"[16].

7.4 Er mwyn bodloni'n llawnach Erthyglau 12 a 13 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Nodau Craidd cysylltiedig Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac amcanion polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru, a fanylir yn Rhan 1, rhoddwyd ystyriaeth i dri opsiwn:

- **Opsiwn 1**: gwneud dim;
- **Opsiwn 2:** cynyddu cyfraniad plant neu bobl ifanc yn y prosesau apelio, *heb ymestyn hawliau apelio*, drwy ddiwygio rheoliadau'r Tribiwnlys a'r canllawiau i AALlau; nid yw'n ymestyn hawl plant i wneud hawliadau anabledd;
- **Opsiwn 3:** Cyflwyno Mesur Cynulliad.

**Opsiwn 1: Gwneud Dim**

7.5 Mae partïon i apelau AAA a hawliadau anabledd yn dibynnu ar y ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth bresennol, yn ogystal â dau god ymarfer: Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Llywodraeth Cynulliad Cymru, a Chod Ymarfer i Ysgolion y Comisiwn Hawliau Anabledd gynt. Yn 2002 y gwnaed y diwygiadau diweddaraf i'r ddeddfwriaeth neu'r codau ymarfer mewn perthynas â Thribiwnlys Cymru. Er bod y Tribiwnlys yn parhau'n dribiwnlys datganoledig, daeth SENDIST, y tribiwnlys cyfatebol yn Lloegr, yn rhan o Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol (HESC) Haen Gyntaf y Gwasanaeth Tribiwnlys ar 3 Tachwedd 2008. Erbyn hyn, mae

[16] Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig 2001 (2001/600), fel y'u diwygiwyd

SENDIST yn gweithredu'n unol â Rheolau HESC, gyda'r rheoliadau a ddilynwyd yng Nghymru a Lloegr gynt yn parhau mewn grym yng Nghymru yn unig erbyn hyn.

7.6 Mae gwneud dim yn annerbyniol am na all fodloni amcanion y polisi, a hynny'n bennaf am y rhesymau canlynol:

- O dan y rheoliadau cyfredol, mae'r ddarpariaeth gymharol wan ar gyfer ceisio safbwyntiau'r plentyn yn annigonol. Anogwyd AALlau (yn ystod cyfarfodydd Grŵp Defnyddwyr y Tribiwnlys ac yn Adroddiad Blynyddol 2004/5 Llywydd y Tribiwnlys) i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â safbwyntiau'r plentyn. Mae'r cyfleoedd i wrando ar safbwyntiau'r plentyn yn amodol ar ewyllys y partïon neu ddisgresiwn y Tribiwnlys;

- Ni all y plentyn wneud apêl neu hawliad ac, os yw'r rhiant naill ai'n gwrthod neu'n methu cymryd y camau hyn, efallai na fydd buddiannau'r plentyn yn cael eu diwallu yn y ffordd orau neu, yn wir, efallai na fydd modd eu diwallu o gwbl;

- Mae anghysondeb yn y ffaith bod modd i Weinidogion Cymru wneud y rheoliadau ar gyfer swyddogaeth AAA y Tribiwnlys, tra bydd yr Ysgrifennydd Gwladol (y Gweinidog dros Gyfiawnder) yn parhau'n gyfrifol am wneud y rheoliadau ar gyfer yr awdurdodaeth anabledd. Yr Ysgrifennydd Gwladol fydd yn parhau i benderfynu ar gwynion ynglŷn â diffyg cydymffurfio â gorchmynion anabledd y Tribiwnlys.

**Opsiwn 2: Cynyddu cyfraniad plant neu bobl ifanc yn y prosesau apelio, *heb ymestyn hawliau apelio*, drwy ddiwygio rheoliadau'r Tribiwnlys a'r canllawiau i AALlau; nid yw'n ymestyn hawl plant i wneud hawliadau anabledd**

7.7 O dan opsiwn 2, dim ond prif reoliadau AAA y Tribiwnlys a Chod Ymarfer AAA Cymru y gallai Gweinidogion Cymru eu diwygio. Byddai hyn yn rhoi mwy o bwyslais ar gyfraniad plant i'r prosesau penderfynu, gan gryfhau eu hawliau yn ogystal â'r gofyn i gynnwys safbwyntiau plant mewn tystiolaeth a gyflwynir gerbron y Tribiwnlys. Bwriedir newid y rheoliadau beth bynnag, a byddai'r camau hyn yn ategu'r Mesur Cynulliad arfaethedig. Ystyrir fod diwygio'r rheoliadau a'r Cod Ymarfer yn unig yn annhebygol o fodloni'n llawn amcanion y polisi, a hynny o achos y cyfyngiadau cynhenid:

- Ni fyddai unrhyw bosibilrwydd o ddiwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol; ni fyddai modd rhoi'r hawl i apelio a gwneud hawliadau. Byddai apelau'n parhau'n gwbl amodol ar ddymuniadau a galluedd y rhiant/rhieni. Pan na fyddai rhiant yn apelio, am ba reswm bynnag, mae perygl na fyddai buddiannau'r plentyn yn cael eu bodloni.

- Hefyd, byddai'r pŵer i wneud rheoliadau mewn perthynas ag awdurdodaeth anabledd y Tribiwnlys yn parhau yn nwylo'r Ysgrifennydd Gwladol (gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru). Yn

hynny o beth, byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru'n dibynnu ar yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau newydd neu ddiwygio rheoliadau ar gyfer Gymru, gan ddibynnu arno i'w gwneud yn unol ag amserlen sy'n gydnaws â rhaglen gyflenwi Llywodraeth Cynulliad Cymru;

- Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gytuno i ymestyn hawliau pobl anabl i gyfrannu er mwyn rhoi effaith lawn iddynt yn y rheoliadau, neu rhaid iddo gytuno, trwy Fesur Cynulliad, i'w bŵer i wneud rheoliadau gael ei ddiddymu a'i drosglwyddo i Weinidogion Cymru. Mae'r opsiwn hwn yn caniatáu i'r sefyllfa bresennol barhau mewn perthynas â hawliadau anabledd. Mae'n amlwg na fyddai hyn yn cyd-fynd â'r amcanion polisi gan na fyddai gan blant yr hawl i wneud hawliadau, ac ni fyddai modd diwallu eu buddiannau os na fyddai eu rhieni'n gwneud hawliad. Mae'r opsiwn hwn hefyd yn creu anawsterau, gan na fyddai gan blant anabl yr hawl i wneud hawliad ac, yn hynny o beth, byddent yn cael triniaeth lai ffafriol na phlant ag AAA.

**Opsiwn 3: Cyflwyno Mesur Cynulliad**

7.8 Ystyrir mai Mesur Cynulliad yw'r opsiwn mwyaf priodol i roi ei lawn effaith i'r amcanion polisi. Mae hefyd yn ddigon hyblyg i allu gwneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen i fanylion y polisi ar ôl i'r cyfnod treialu a gwerthuso ddod i ben, ac mae hynny'n fantais arall.

7.9 Mae opsiwn 3 yn bodloni'r amcanion polisi oherwydd:

- Trwy gyfrwng cyfnod treialu, mae'n darparu ar gyfer cyflwyno'n ofalus hawliau plant i wneud apêl/hawliad, ac yn caniatáu iddynt wneud apelau a hawliadau ac i'r Tribiwnlys eu cofrestru a rhoi gwrandawiad iddynt. Ar sail ddeddfwriaethol yn unig y gall cynllun treialu fel hwn weithredu, ac mae'n gofyn am ddeddfwriaeth galluogi (sylfaenol); ac
- Ar ôl gwerthuso'r cynlluniau treialu, gellir mynd ati i gyflwyno'n statudol hawliau plant i wneud apêl/hawliad ledled Cymru;
- Mae'n gyfle i ddiwallu anghenion plant ac i ystyried eu safbwyntiau, lle nad yw eu rhieni yn gwneud apêl neu hawliad;
- Mae'n sicrhau y rhoddir y parch a'r ystyriaeth briodol i safbwyntiau plant, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal;
- Mae'n ei gwneud yn ofynnol rhoi mynediad i wasanaethau eirioli annibynnol a Gwasanaethau Partneriaeth a Datrys Anghytundebau i blant sy'n gwneud neu'n ystyried gwneud apêl, gan eu rhoi yng nghanol y prosesau sy'n effeithio arnynt, ac ymestyn eu hawl. Mae'r opsiwn hwn yn sefydlu'n gadarnach hawl plant ag AAA a phlant anabl i gyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- Mae'n caniatáu diwygio rheoliadau AAA ac anabledd ar yr un sail, ac yn rhoi hawliau cyfartal gerbron y Tribiwnlys i blant anabl a phlant ag AAA.

7.10 Gellir parhau i edrych ar y diwygiadau i reoliadau a drafodir yn Opsiwn 2 er mwyn ategu’r broses a nodir yn Opsiwn 3 o gynyddu hawliau a mynediad i wasanaethau.

# 8. Costau a Manteision

**Opsiwn 1: Gwneud Dim**

*Manteision:*

8.1 Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm wrth opsiwn 1 i Lywodraeth Cynulliad Cymru, y Tribiwnlys, AALlau na'r sector gwirfoddol.

8.2 Ar hyn o bryd, gwneir llai na 100 o apelau y flwyddyn; yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (2007/08), gwnaed 5 apêl neu lai yn erbyn penderfyniadau 17 o AALlau yng Nghymru (rhwng 0 a 2 apêl yn achos 13 ohonynt). Dim ond yn achos 2 AALl y gwnaed 10 neu fwy o apelau: gwnaed 19 apêl yr un yn achos Caerdydd a Sir Gaerfyrddin. Yn y mwyafrif helaeth o achosion, gellir dadlau bod AALlau yn gwneud penderfyniadau addas ynglŷn â darpariaeth a chyfleusterau addysg ar gyfer plant ag AAA. Mae gwneud dim yn gymesur â gweithgaredd apelio rhieni.

8.3 Dylai'r ffaith bod i'r rheoliadau oes gymharol hir sicrhau bod AALlau, cynrychiolwyr rhieni a'r Tribiwnlys ei hun yn gyfarwydd â'r prosesau a'r gofynion.

8.4 Mae rhai darpariaethau eisoes ar waith i sicrhau bod safbwyntiau plant yn cael eu hystyried mewn gwrandawiadau gerbron y Tribiwnlys.

8.5 Ar hyn o bryd, mae Pennod 3 Cod Ymarfer AAA Cymru yn nodi y dylai AALlau, ysgolion ac eraill geisio cynnwys disgyblion mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

*Costau:*

8.6 Er nad oes unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm wrth yr opsiwn hwn, nid yw ychwaith yn datblygu hawl plant nac yn mynd i'r afael ag unrhyw amharodrwydd posibl i gynnwys plant mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Er bod nifer yr apelau'n isel, ni wnaed unrhyw ymchwil empirig sy'n awgrymu mai'r rheswm am hyn yw boddhad ar ran rhieni, neu i ddangos na fyddai plant yn manteisio ar gyfleoedd i apelio petaen nhw ar gael.

8.7 Yn ôl yr opsiwn hwn, dylid ceisio safbwyntiau plant ond, lle na wneir hynny, mae'r gosb am beidio â chydymffurfio yn aneglur ac, o bosibl, yn ddryslyd (caiff AALl nad yw'n cyflwyno datganiad achos ei atal rhag cymryd rhan bellach yn yr achos, gan adael y Tribiwnlys i benderfynu apêl ar sail tystiolaeth gan un parti yn unig).

8.8 Os nad yw safbwyntiau'r plentyn yn hysbys, ni all y Tribiwnlys o'i wirfodd wysio tyst i siarad ar ran y plentyn.

8.9 Os nad oes modd i riant plentyn apelio, er enghraifft, pan fo'i anghenion yn ei atal rhag gwneud hynny, ni all rhywun arall wneud apêl ar ran y plentyn, ac ni ellir herio penderfyniad terfynol yr AALl ynglŷn ag addysg y plentyn.

8.10 Bydd Gweinidogion Cymru yn parhau heb bŵer i wneud rheoliadau i reoli swyddogaethau anabledd y Tribiwnlys datganoledig.

**Opsiwn 2: Cynyddu cyfraniad plant neu bobl ifanc yn y prosesau apelio, *heb ymestyn hawliau apelio,* drwy ddiwygio rheoliadau'r Tribiwnlys a'r canllawiau i AALlau; nid yw'n ymestyn hawl plant i wneud hawliadau anabledd**

*Manteision*

8.11 Gallai cryfhau rheoliadau AAA gadarnhau pwysigrwydd safbwyntiau'r plentyn yn y broses apelio. Gallai'r gofyniad i ddarparu safbwyntiau'r plentyn fod yn fwy cytbwys fel nad yw'n gyfrifoldeb ar yr AALl yn unig (fel atebydd i apelau).

8.12 Gallai'r rheoliadau roi hawl digamsyniol i'r plentyn annerch y Tribiwnlys, ac ni fyddai hynny'n amodol ar ddisgresiwn neu ganiatâd y Tribiwnlys.

8.13 Gan na fyddai dyletswyddau statudol newydd yn cael eu gosod gan Fesur, isel iawn fyddai'r costau i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Hefyd, ni fyddai unrhyw bwysau ariannol newydd ar y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol na swyddogaethau annatganoledig eraill. Byddai modd talu am gostau canlyniadol hyfforddiant Tribiwnlys a hyfforddiant defnyddwyr o fewn dyraniadau cyllidebau presennol a'u cynnwys yn ystod cynadleddau Tribiwnlys a digwyddiadau Grwpiau Defnyddwyr rheolaidd.

8.14 Ni fyddai unrhyw sgôp ar gyfer apelau gan ddirprwy neu brofi cymhwysedd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a rheolau eraill mewn perthynas ag apelyddion sy'n blant.

8.15 Gallai diwygio'r rheoliadau ddarparu ar gyfer galw tystion, naill ai gan y partïon neu gan y Tribiwnlys, i eirioli dros safbwyntiau'r plentyn.

8.16 Mae'r opsiwn hwn yn gyson â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Saith Nod Craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

8.17 Gellid ymgynghori ar y rheoliadau a'u gwneud o fewn cyfnod o flwyddyn.

*Costau*

8.18 Yn y pen draw, byddai apelau ynghylch plant yn ddibynnol o hyd ar ewyllys neu alluedd y rhieni. Er y disgwylir i rieni weithredu er lles gorau eu plant yn y rhan fwyaf o achosion, mewn sefyllfaoedd pan na fydd hynny'n digwydd mae'n bosibl na chaiff anghenion y plant, yn arbennig plant sy'n derbyn gofal, eu diwallu.

8.19 Efallai na fyddai dyletswyddau newydd i ymestyn cyngor a chyfleusterau datrys anghytundebau i blant. Yn yr un modd, ni fyddai dyletswydd statudol i ddarparu cefnogaeth eiriolaeth i blant.

8.20 Byddai goblygiadau Deddf Hawliau Dynol Ewrop yn bosibilrwydd os byddai gan blant anabl hawliau apelio llai pwysig neu lai niferus na phlant ag AAA.

8.21 Yr Ysgrifennydd Gwladol fyddai'n dal i benderfynu ar unrhyw gwynion am ddiffyg cydymffurfio â gorchmynion anabledd.

8.22 Byddai angen diwygio canllawiau'r Tribiwnlys (er bod hynny'n fater i'r Tribiwnlys ei hunan) a Chod Ymarfer AAA Cymru a llenyddiaeth sector gwirfoddol. Yn ogystal â hynny, amcangyfrifir mai oddeutu £10,000 fydd y costau ymgynghori sy'n gysylltiedig â rheoliadau newydd, gan gynnwys cynhyrchu a chyflwyno cyfryngau ymgynghori sy'n gyfeillgar i blant. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar ymgynghoriadau "Llais a Dewis".

8.23 Gellir talu'r costau o gyllidebau Anghenion Dysgu Ychwanegol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Opsiwn 3: Cyflwyno Mesur Cynulliad**

*Manteision*

8.24 Mae opsiwn 3 yn caniatáu ar gyfer bodloni amcan y polisi.

8.25 Mae'r opsiwn hwn yn arwydd o ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddiwallu anghenion plant ac ymestyn eu hawliau. Mae'r opsiwn yn ymateb priodol a phositif i gynigion y Comisiynydd Plant diweddar, a hefyd yn pwysleisio ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

8.26 Bydd cyfnod treialu a gwerthuso yn gyfle hollbwysig i gasglu tystiolaeth mewn maes lle nad oes cymaryddion uniongyrchol. Bydd yn sefydlu'r lefel debygol o ddefnydd a wneir o'r gweithdrefnau a'r gwasanaethau ac felly'n helpu i sicrhau y bydd llai o debygolrwydd o ddarparu gormod neu ddim digon o adnoddau. Bydd modd talu am astudiaethau treialu o ddyraniadau cyllideb cyfredol Llywodraeth y Cynulliad ac maent yn opsiwn sy'n weddol rhad ar adeg o ansicrwydd ariannol.

8.27 O ran costau a darparu gwasanaeth, gellir gwneud asesiad ar sail tystiolaeth o'r nifer debygol o apelau a hawliadau a wneir gan blant. Yn unol â hynny, bydd modd datblygu sail gywir ar gyfer dyrannu adnoddau.

8.28 Bydd cyfnodau treialu hefyd yn gyfle i asesu'r goblygiadau tebygol o ran ceisiadau am Gymorth Cyfreithiol ac apelau a anfonir ymlaen i'r Uwch-Dribiwnlys.

8.29 Beth bynnag yw'r nifer a fydd yn manteisio ar yr hawliau i wneud apelau a hawliadau yn y pen draw, mae'r Mesur yn gyfle arwyddocaol pellach i danlinellu pa mor bwysig yw sicrhau bod plant yn rhan o'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

8.30 Mae mantais enfawr i ddatblygu a rhannu arfer gorau, ar draws y Tribiwnlys, yr AALlau, a darparwyr eiriolaeth. Yn yr un modd, mae cyfle i ddatblygu hyfforddiant mewn cyfiawnder gweinyddol, sy'n faes gweddol newydd.

8.31 Bydd sicrhau bod plant yn cael mynediad i Wasanaethau Partneriaeth a Datrys Anghytundebau yn rhoi mwy o gyfle i blant archwilio eu hopsiynau a datrys anghytundebau'n anffurfiol yn y cyfnod cynnar.

8.32 Mae'r opsiwn hwn yn gyfle i alinio â phrosiectau treialu eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru a fydd yn archwilio opsiynau ar gyfer cynnal asesiad statudol o AAA plant. Hefyd, bydd datblygiad pellach Gwasanaethau Eirioli Arbenigol Integredig i blant yn cynnig cyfleoedd pwysig unwaith y cyflwynir yr hawliau ar lefel Cymru gyfan.

8.33 Mae'r opsiwn yn darparu ar gyfer rheoliadau sy'n rheoli pob agwedd ar swyddogaethau'r Tribiwnlys datganoledig i'w gwneud gan Weinidogion Cymru. Gellir trin hawliadau anabledd ac apelau AAA yn gyfartal.

*Costau*

8.34 Er mai un o fanteision y cyfnod treialu yw'r cyfle i ddatblygu sail tystiolaeth, mae ansicrwydd ynghylch y niferoedd sy'n debygol o fanteisio ar yr hawliau. Mae nifer yr apelau wedi gostwng o uchafswm o 150 yn 2005/06 i 118 yn y flwyddyn ganlynol cyn gostwng i isafswm hanesyddol o 94 o apelau wedi'u cofrestru yn 2007/08. Os yw'r duedd hon yn parhau erbyn hanner ffordd drwy'r flwyddyn, mae'n edrych yn debyg y bydd nifer yr apelau am eleni'n dal i fod ar lefel isel. Y nifer uchaf o hawliadau anabledd a wnaed yn ystod blwyddyn oedd 9 (2007/08). Ni chofrestrwyd unrhyw hawliadau yn ystod pum mis cyntaf y flwyddyn Dribiwnlys gyfredol. Ni allwn ragweld gydag unrhyw gywirdeb pendant a fydd effaith, neu beth fydd effaith, ymestyn hawliau apelio i blant, naill ai fel rhan o gyfnod treialu neu ledled Cymru.

8.35 Ar sail 0-10 o apelau ychwanegol y flwyddyn gan blant, efallai y bydd modd cyflawni cyfnod treialu dros ddwy flynedd, gyda chyfnod gwerthuso i ddilyn, ar gost ychwanegol o £130,000. Ni ragwelir y bydd y gost yn fwy na £150,000. Mae'r gost untro hon yn tybio y bydd cyd-gysylltydd treialu, sydd â mewnbwn i gynllun y treialu, yn gweithio am ddau ddiwrnod yr wythnos (ynghyd â gorbenion a theithio a chynhaliaeth) ac y bydd ar lefel debyg i secondai prosiect sy'n gweithio ar hyn o bryd o fewn yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr. Byddai AALlau yn cael cyllid i wneud contractau â darparwyr gwasanaethau eiriolaeth a darparwyr gwasanaeth cysylltiedig. Byddai'r costau'n cynnwys hyfforddiant ar gyfer darparwyr eiriolaeth, swyddogion Partneriaeth ac AALl, a chostau yn ôl y gofyn am ddarparu eiriolaeth. Byddai costau pellach yn cynnwys datblygu, profi a chynhyrchu canllawiau a gwybodaeth i blant a phobl ifanc ar fformatau addas iddynt. Yr AALlau a'r rheolwr prosiect fydd â'r disgresiwn o ran contractau gwasanaeth a chyfryngau, yn unol â'r safonau gofynnol ac amodau a thelerau'r grant a bennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd costau ymchwil a gwerthuso gweithredu'n cael eu talu'n ganolog drwy Dîm Ymchwil Llywodraeth y Cynulliad. Bydd costau'n cael eu monitro'n ofalus a bydd darpariaeth yn cael

ei chynnwys ar gyfer costau ymylol uwch sy'n ymwneud â mwy na 10 o apelau/hawliadau y flwyddyn gan blant.

8.36 Isod ceir amlinelliad o'r costau posibl ar gyfer y cyfnod treialu a gwerthuso:

| | |
|---|---|
| Rheolwr Prosiect (2 ddiwrnod/yr wythnos + T&Ch) | 45,000 |
| Ymchwil a Gwerthuso Gweithredu | 15,000 |
| Datblygu, profi a chynhyrchu Llenyddiaeth / Cyfryngau Amgen | 50,000 |
| Hyfforddiant ar gyfer staff AALl a gwasanaethau cymorth | 20,000 |
| **Cyfanswm** | **130,000** |

8.37 Gellir talu am y costau hyn o gyllidebau cyfredol Anghenion Dysgu Ychwanegol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

8.38 Gellid cynnwys y costau i'r Tribiwnlys o fewn y cyllidebau Tribiwnlys. Nid yw'n eglur ar hyn o bryd a fyddai'r apelau sy'n cael eu dwyn gan blant *yn lle*'r rhai sy'n cael eu dwyn gan rieni, neu a fyddent yn apelau ychwanegol na fyddai'r Tribiwnlys fel arall wedi gorfod eu hystyried. Hyd yn oed yn achos apelau ychwanegol, gellid yn hawdd gynnwys ffioedd y gwrandawiad ar gyfer cadeiryddion ac aelodau lleyg y Tribiwnlys os yw apelau gan blant yn dilyn yr un patrwm ag apelau sy'n cael eu dwyn gan rieni, gyda 63% ohonynt wedi'u tynnu yn ôl gan rieni neu eu hildio gan AALlau.

8.39 Os yw niferoedd terfynol apelau a hawliadau plant mor isel â'r disgwyl, byddai'r costau i'r AALlau yn ymylol, gan y byddai'r rhan fwyaf ohonynt yn apelau ffigwr sengl. Ni fyddai'r setliad yn adlewyrchu hyn. Wrth reswm, yn sgil y cyfnod treialu a hawliau plant yn cael eu cyflwyno'n llawn, byddai'r tueddiadau'n cael eu monitro'n ofalus ac unrhyw addasiadau'n cael eu gwneud yn ôl yr angen.

8.40 Mae'n ofynnol eisoes i AALlau wneud trefniadau i gynnig Gwasanaethau Partneriaethau Rhieni i rieni ac i wneud darpariaeth ar gyfer mynediad i Wasanaethau Datrys Anghytundebau. Mae ailgyflwyno'r gwasanaethau hyn fel eu bod ar gael i blant yn estyniad o ddyletswydd sydd eisoes yn bodoli, gan olygu cynnydd ymylol yn unig i wariant yr AALl. Blaenoriaeth 4B o'r Gronfa Ysgolion Gwell.

8.41 Yr Uwch-Dribiwnlys sydd bellach i benderfynu ar apelau a anfonir ymlaen o'r Tribiwnlys. Cyn Tachwedd 2008 gwnaed apelau i'r Uchel Lys. Gwnaed 7 o apelau o benderfyniadau gan y Tribiwnlys i'r Uchel Lys ers

dechrau'r Tribiwnlys yn 2003. Ni ragwelir y bydd ymestyn hawliau plant i wneud apelau a hawliadau yn cael effaith ychwanegol ar y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

8.42 Bydd apelyddion neu hawlwyr i'r Tribiwnlys yn gymwys i gael Cymorth Cyfreithiol os ydynt yn bodloni meini prawf rheolau'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Bydd Cymorth Cyfreithiol yn darparu cymorth cyfreithiol wrth baratoi achos a pharatoi tystiolaeth ac adroddiadau. Nid yw Cymorth Cyfreithiol yn cynnwys cynrychiolaeth gerbron Tribiwnlys. Fel arfer bydd hawl i gyllid yn seiliedig ar asesiad o faint o fodd sydd gan y teulu, nid y plentyn, oni sefydlir fod gwrthdaro buddiannau'n bodoli. Mae'r costau ychwanegol i'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn sgil y cyfnod treialu yn debygol o fod yn ddibwys. Mae'r Comisiwn a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder am ystyried gwerthusiad o'r cyfnodau treialu er mwyn datblygu sylfaen resymegol ar gyfer goblygiadau ariannol.

**Crynodeb**

8.43 Dim ond Opsiwn 3 all roi sylw llawn i amcanion y polisi drwy gyflwyno'n gyntaf gyfnod treialu ac yna gyflwyno hawliau plant i wneud apelau a hawliadau ar draws Cymru. Mae'r opsiwn hwn yn gyfle cryf i werthuso'n ofalus y modd y cymhwysir yr hawliau'n ymarferol a'r modd y cyflunnir y gwasanaethau angenrheidiol.

## 9. Asesu’r Gystadleuaeth

9.1 Ni fydd y Mesur yn cael effaith negyddol ar gystadleuaeth.

## 10. Adolygu ar ôl Gweithredu

10.1 Bydd y cyfnod treialu'n agored i graffu trwyadl ar ffurf prosiect ymchwil gweithredu. Bydd asesiadau meintiol ac ansoddol yn seiliedig ar brofiadau apelyddion, y Tribiwnlys, AALlau, eiriolwyr, cynrychiolwyr ac adrannau eraill y Llywodraeth.

10.2 Gwnaed darpariaeth yn y Mesur i roi pŵer i Weinidogion Cymru i addasu'r Mesur i roi effaith i unrhyw newidiadau a nodir gan y cyfnod treialu a gwerthuso sy'n angenrheidiol i roi effaith lawn i hawliau plant. Bydd y Mesur hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru addasu'r Mesur i ymdrin ag unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg ar ôl cyflwyno'r Mesur yn gyffredinol ledled Cymru.

10.3 Rhaid i Weinidogion Cymru, wrth arfer eu pŵer i addasu unrhyw ddarpariaeth yn y Mesur, roi ystyriaeth i'r adroddiad ar sut y gweithredwyd y darpariaethau yn ystod y cyfnod treialu a pha mor effeithiol yr oeddent i hybu lles plant.

10.4 Bydd unrhyw newidiadau i'r Mesur yn cael eu gwneud drwy is-ddeddfwriaeth, (drwy Orchymyn) ac yn agored i graffu gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan y weithdrefn penderfyniad uwchgadarnhaol.

**Atodiad 1**

# Nodiadau Esboniadol

**Mesur Addysg (Cymru)**

**Cyflwyniad**

Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â'r Mesur arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru) fel y'i cyflwynir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 27 Ebrill 2009.

Cafodd y Nodiadau eu paratoi gan Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Mesur arfaethedig a helpu i lywio dadl arno. Nid ydynt yn rhan o'r Mesur arfaethedig ac nid ydynt wedi eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Dylai'r Nodiadau Esboniadol gael eu darllen ar y cyd â'r Mesur arfaethedig. Nid ydynt, ac ni fwriedir iddynt fod, yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Mesur. Os yw'n ymddangos, felly, nad oes angen rhoi esboniad neu wneud sylw ar adran neu ran o adran yna ni roddir esboniad ac ni wneir sylw arni.

Mae'r Mesur yn rhoi i blant a phobl ifanc yr hawl i wneud apêl i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ("y Tribiwnlys") mewn cysylltiad ag anghenion addysgol arbennig ac yn rhoi iddynt hawl i wneud hawliad i'r Tribiwnlys mewn cysylltiad â gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion.

Mae'r Mesur yn gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth gyfredol sy'n ymwneud â'r cwricwlwm ysgol. Newidiadau ydynt sy'n deillio o roi ar waith gyfnod sylfaen (plant 3 i 7 oed) Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru. Caiff cyfnod allweddol 1 ei ddileu o Gwricwlwm Cenedlaethol Cymru ac ailenwir "foundation stage" yn "foundation phase". Dim ond y term Saesneg a gaiff ei newid. Mae'r term Cymraeg, "cyfnod sylfaen", yn parhau'n ddigyfnewid.

Gall y Mesur hefyd newid deddfwriaeth sy'n berthnasol i hawl disgyblion o dan y cwricwlwm lleol (y grŵp oedran 16-18).

Caiff y pwerau i wneud Mesur o'r fath eu cynnwys ym Materion 5.4, 5.7, 5.8 a 5.17 yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mewnosodwyd Materion 5.4, 5.7 a 5.8 gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trosi Pwerau Fframwaith) 2007. Mewnosodwyd Mater 5.17 gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg a Hyfforddiant) 2008.

# Sylwebaeth ar Adrannau

## Rhan 1 – Apelau a Hawliadau Addysg gan Blant

**<u>Apelau anghenion addysgol arbennig</u>**

**Mae adrannau 1- 8 yn mewnosod darpariaethau newydd yn Neddf Addysg 1996**

**Adran 1 – Hawl plentyn i apelio i'r Tribiwnlys mewn cysylltiad ag anghenion addysgol arbennig (mewnosod adran 332ZA newydd yn Neddf Addysg 1996)**

Mae isadran (1) o'r adran 332ZA newydd yn pennu seiliau presennol apêl y caiff rhiant i blentyn a chanddo AAA ei gwneud i'r Tribiwnlys.

Mae isadran (2) yn darparu y caiff plentyn apelio i'r Tribiwnlys mewn perthynas â seiliau presennol apêl y caiff rhiant y plentyn ei gwneud.

Mae isadran (3) yn caniatáu i riant a phlentyn apelio ar yr un pryd p'un ai ar yr un seiliau ai ar seiliau gwahanol.

Mae isadran (5) yn darparu bod arfer hawliau a roddir o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaethau a wnaed gan reoliadau o dan adrannau 332ZC a 336(1) o Ddeddf Addysg 1996.

**Adran 2 – Hysbysu plentyn a chyflwyno dogfennau iddo (mewnosod adran 332ZB newydd yn Neddf Addysg 1996)**

Mae isadran (1) o'r adran 332ZB newydd yn pennu amryw amgylchiadau pan fo'n rhaid i Awdurdod Addysg Lleol hysbysu rhiant plentyn, neu gyflwyno dogfen i riant plentyn.

Mae isadran (2) yn rhoi dyletswydd ar Awdurdod Addysg Lleol i hysbysu'r plentyn yn ogystal â'r rhiant, neu i gyflwyno dogfen i'r plentyn yn ogystal ag i'r rhiant.

Mae isadran (3) yn ei gwneud yn ofynnol y bydd unrhyw ddarpariaeth sy'n gymwys i hysbysiadau a roddir, neu ddogfennau a gyflwynir, i riant yr un mor gymwys i hysbysiadau a roddir, neu ddogfennau a gyflwynir, i blentyn.

**Adran 3 – Cyfeillion achos (mewnosod adran 332ZC newydd yn Neddf Addysg 1996)**

Mae isadran (1) o'r adran 332ZC newydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau syn darparu i blentyn gael person (a elwir "cyfaill achos") i wneud cynrychioliadau ar ran y plentyn er mwyn osgoi neu ddatrys

anghydfodau rhwng y plentyn a'r Awdurdod Addysg Lleol neu er mwyn arfer, ar ran y plentyn, hawl plentyn i apelio.

Mae isadran (2) yn pennu dyletswyddau'r cyfaill achos pan fydd yn gwneud cynrychioliadau neu apêl ar ran plentyn.

Mae isadran (3) yn darparu y caiff rheoliadau, a wneir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon, (ymhlith pethau eraill) roi swyddogaethau i'r Tribiwnlys a gosod gweithdrefnau mewn perthynas â chyfeillion achos. Caiff rheoliadau hefyd wneud darpariaeth ynghylch penodi neu ddiswyddo cyfaill achos, pennu amgylchiadau pan gaiff person neu pan na chaiff person weithredu fel cyfaill achos, pennu amgylchiadau pan fo'n rhaid i blentyn gael cyfaill achos, a phennu gofynion mewn cysylltiad ag ymddygiad cyfaill achos.

**Adran 4 – Cyngor a gwybodaeth**
**(diwygio adran 332A a mewnosod adran 332AA newydd yn Neddf Addysg 1996)**

Diwygir adran 332A o Ddeddf Addysg 1996 fel ei bod yn gymwys i Loegr yn unig.

Mewnosodir adran 332AA newydd yn Neddf Addysg 1996.

Mae isadran (1) o'r adran newydd yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol i drefnu bod cyngor priodol a gwybodaeth briodol ynghylch materion sy'n ymwneud ag AAA'r plentyn yn cael eu darparu ar gyfer unrhyw blentyn yn eu hardal a chanddo AAA, ac unrhyw riant neu gyfaill achos i blentyn o'r fath.

Mae isadran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru pan fydd yr Awdurdodau'n gwneud trefniadau i ddarparu cyngor a gwybodaeth i blant, i'w rhieni neu i'w cyfeillion achos.

Mae isadran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol gydymffurfio ag unrhyw reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru ac sy'n ymwneud â threfniadau rhoi cyngor a gwybodaeth.

Mae isadran (4) yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol i sicrhau bod plant, rhieni, penaethiaid ysgolion a pherchenogion ysgolion yn eu hardal, a phersonau eraill o'r fath y mae'r Awdurdodau o'r farn eu bod yn briodol, yn ymwybodol bod gwasanaethau cyngor a gwybodaeth ar gael.

**Adran 5 – Datrys anghydfodau**
**(diwygio adran 332B a mewnosod adran 332BA newydd yn Neddf Addysg 1996)**

Diwygir adran 332B o Ddeddf Addysg 1996 fel ei bod yn gymwys i Loegr yn unig.

Mewnosodir adran 332BA newydd yn Neddf Addysg 1996.

Mae isadran (1) o’r adran newydd yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol i wneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau datrys anghydfodau sy’n wasanaethau annibynnol er mwyn osgoi neu ddatrys anghytundebau rhwng yr Awdurdod Addysg Lleol a phlentyn a’r Awdurdod Addysg Lleol a rhiant i blentyn.

Mae isadran (2) yn gorfodi Awdurdodau Addysg Lleol i wneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau datrys anghydfodau sy’n wasanaethau annibynnol gyda’r bwriad o osgoi neu ddatrys anghydfodau rhwng plentyn a pherchennog ysgol a rhiant a pherchennog ysgol.

Mae isadran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol wneud trefniadau sy’n darparu ar gyfer penodi person annibynnol i helpu i osgoi neu ddatrys anghydfodau.

Mae isadran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru pan fydd yr Awdurdodau’n gwneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau datrys anghydfodau.

Mae isadran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth a wnaed mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru sy’n ymwneud â gwasanaethau datrys anghydfodau.

Mae isadran (6) yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol i sicrhau bod plant, rhieni, penaethiaid ysgolion a pherchenogion ysgolion yn eu hardal, a phersonau eraill o'r fath y mae’r Awdurdodau o’r farn eu bod yn briodol, yn ymwybodol bod gwasanaethau datrys anghydfodau ar gael.

Mae isadran (7) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol hysbysu plant, rhieni a chyfeillion achos ar gyfer plant yn eu hardal na fydd cymryd rhan mewn trefniadau datrys anghydfodau yn effeithio ar hawl rhiant neu blentyn i apelio i’r Tribiwnlys.

**Adran 6 – Gwasanaethau eirioli annibynnol**
**(mewnosod adran 332BB newydd yn Neddf Addysg 1996)**

Mae isadran (1) o adran 332BB newydd yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol i drefnu bod gwasanaeth eirioli annibynnol ar gael yn eu hardal, a bod plentyn neu gyfaill achos ar gyfer plentyn yn cael ei gyfeirio at y gwasanaeth pe byddai’n gofyn am hynny.

Mae isadran (2) yn diffinio “independent advocacy services” (gwasanaethau eirioli annibynnol) yn wasanaethau a fwriedir ar gyfer darparu cyngor a chymorth i blentyn sy’n ystyried p’un ai i apelio i’r Tribiwnlys ai peidio, sydd

wedi gwneud neu sy'n bwriadu gwneud apêl, neu sy'n cymryd rhan neu'n bwriadu cymryd rhan mewn trefniadau datrys anghydfodau.

Mae isadran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol, pan fyddant yn gwneud trefniadau gwasanaethau eirioli, roi sylw i'r egwyddor bod yn rhaid i'r gwasanaeth eirioli fod yn annibynnol ar unrhyw berson sy'n destun apêl neu y mae a wnelo ag ymchwilio i'r apêl neu ddyfarnu ar yr apêl.

Mae isadran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol gydymffurfio ag unrhyw reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru ac sy'n ymwneud â threfniadau gwasanaethau eirioli.

Mae isadran (5) yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol i sicrhau bod plant, rhieni, penaethiaid ysgolion a pherchenogion ysgolion yn eu hardal, a phersonau eraill o'r fath y mae'r Awdurdodau o'r farn eu bod yn briodol, yn ymwybodol bod gwasanaethau eirioli annibynnol ar gael.

Mae isadran (6) yn caniatáu i Awdurdod Addysg Lleol wneud trefniadau sy'n darparu ar gyfer talu person, neu mewn perthynas â pherson, sy'n darparu gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer plentyn neu gyfaill achos.

Mae isadran (7) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru pan fydd yr Awdurdodau'n gwneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer plant neu gyfeillion achos.

**Adran 7 – Gweithdrefn y Tribiwnlys**

Mae'r adran hon yn diwygio adran 336 o Ddeddf Addysg 1996 sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch achosion yn y Tribiwnlys.

Mae isadran (2) yn ychwanegu paragraffau ychwanegol at adran 336(2) i alluogi Gweinidogion Cymru i ohirio achosion o dan amgylchiadau penodol ac i ychwanegu at bartïon i achosion apêl, neu roi partïon yn lle partïon i achosion apêl.

**Adran 8 –Gweithdrefn ar gyfer gwneud rheoliadau (diwygio adran 569 o Ddeddf Addysg 1996 a mewnosod adran 569(2A) a (2B) newydd yn y Ddeddf honno)**

Mae'r adran hon yn diwygio adran 569 o Ddeddf Addysg 1996 sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â rheoliadau.

Mae isadran (2) yn diwygio adran 569(1) o Ddeddf Addysg 1996 i bennu bod yn rhaid arfer drwy offeryn statudol unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau.

Mae isadran (4) yn mewnosod isadrannau 2A a 2B newydd. Mae isadran (2A) yn rhagnodi y bydd rheoliadau a wneir o dan adrannau 332ZC, 332AA, 332BA, 332BB a 336 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol. Mae is-adran (2B) yn fynegbost i effaith paragraffau 33 i 35 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Paragraffau yw'r rhain sy'n ymdrin â gweithdrefnau'r Cynulliad sy'n gymwys i is-ddeddfwriaeth a wneir o dan bwerau sydd yn Neddf Addysg 1996 ac mewn Deddfau eraill ac a drosglwyddwyd i Weinidogion Cymru gan Ddeddf 2006.

**<u>Hawliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd</u>**

**Mae adrannau 9-16 yn mewnosod darpariaethau newydd yn Neddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995**

**Adran 9 – Hawl plentyn i wneud hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd (mewnosod adran 28IA newydd yn Neddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 – Awdurdodaeth a Phwerau'r Tribiwnlys)**

Mae adran 281A newydd yn rhoi i blant anabl yr hawl i wneud hawliad eu hunain i'r Tribiwnlys, ac yn caniatáu i'r Tribiwnlys ystyried hawliad a wnaed gan blentyn a dyfarnu arno.

Mae is-adran (1) o'r adran newydd yn pennu ar ba seiliau y caiff plentyn anabl wneud hawliad i'r Tribiwnlys.

Mae is-adran (2) yn darparu nad yw hawl y plentyn i wneud hawliad yn ymestyn i hawliad yn erbyn ysgol a gynhelir gan yr Awdurdod Addysg Lleol, sef hawliad sy'n ymwneud â phenderfyniadau derbyn i'r ysgol neu wahardd yn barhaol o'r ysgol.

Mae is-adran (3) yn caniatáu i blentyn wneud hawliad ar yr un pryd â rhiant y plentyn p'un ai ar yr un seiliau ai ar seiliau gwahanol.

Mae is-adran (4) yn caniatáu i'r Tribiwnlys wneud gorchymyn mewn perthynas â hawliad a wnaed gan blentyn.

Mae is-adran (5) yn caniatáu i'r Tribiwnlys wneud gorchymyn i rwystro gwahaniaethu neu liniaru ei effeithiau, ond nid yw hyn yn cynnwys pŵer i'r Tribiwnlys orchymyn taliad ar ffurf iawndal.

Mae is-adran (7) yn darparu bod arfer hawliau a roddir o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaethau a wnaed gan reoliadau o dan adrannau 28IB a 28J o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.

**Adran 10 – Cyfeillion achos (mewnosod adran 28IB newydd yn Neddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995)**

Mae is-adran (1) o adran 281B newydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n yn darparu i blentyn anabl gael person i wneud cynrychioliadau ar ran y plentyn er mwyn osgoi neu ddatrys anghydfodau rhwng y plentyn a'r Awdurdod Addysg Lleol, neu er mwyn arfer hawl y plentyn i wneud hawliad i'r Tribiwnlys.

Mae is-adran (2) yn pennu bod person sy'n gwneud cynrychioliadau neu'n gwneud hawliad ar ran plentyn i'w alw'n "gyfaill achos".

Mae is-adran (3) yn nodi'r meini prawf y mae'n rhaid i gyfaill achos eu bodloni pan fydd yn gwneud cynrychioliadau neu'n gwneud hawliad ar ran plentyn.

Mae is-adran (4) yn darparu y caiff rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan yr aran hon roi swyddogaethau i'r Tribiwnlys a gosod gweithdrefnau mewn perthynas â chyfeillion achos. Caiff rheoliadau hefyd wneud darpariaeth ynghylch penodi neu ddiswyddo cyfaill achos, pennu amgylchiadau pan gaiff person neu na chaiff person weithredu fel cyfaill achos, pennu amgylchiadau pan fo'n rhaid i blentyn gael cyfaill achos, a phennu gofynion mewn cysylltiad ag ymddygiad cyfaill achos.

Mae is-adran (5) yn diffinio "disabled child" (plentyn anabl) at ddibenion y darpariaethau newydd yn y Mesur hwn.

**Adran 11 – Cyngor a gwybodaeth**
**(mewnosod adran 28IC newydd – Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995)**

Mae is-adran (1) o adran 281C newydd yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol i drefnu bod cyngor ar faterion sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion yn cael ei roi i unrhyw blentyn anabl yn eu hardal ac i unrhyw gyfaill achos ar gyfer plentyn o'r fath.

Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru pan fydd yr Awdurdodau'n gwneud trefniadau i ddarparu cyngor a gwybodaeth i blant anabl (neu gyfeillion achos).

Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth a wnaed mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru sy'n ymwneud â threfniadau rhoi cyngor a gwybodaeth.

Mae is-adran (4) yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol i sicrhau bod plant anabl, rhieni plant anabl, penaethiaid ysgolion a pherchenogion ysgolion yn eu hardal, a phersonau eraill o'r fath y mae'r Awdurdodau o'r farn eu bod yn briodol, yn ymwybodol bod gwasanaethau cyngor a gwybodaeth ar gael.

**Adran 12 – Datrys anghydfodau**

**(mewnosod adran 28ID newydd – Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995)**

Mae is-adran (1) o adran 281D newydd yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol i wneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau datrys anghydfodau sy'n wasanaethau annibynnol er mwyn osgoi neu ddatrys anghytundebau rhwng plentyn anabl a'r corff sy'n gyfrifol am ysgol.

Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol wneud trefniadau sy'n darparu ar gyfer penodi person annibynnol i helpu i osgoi neu ddatrys anghydfodau.

Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru pan fydd yr Awdurdodau'n gwneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau datrys anghydfodau.

Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth a wnaed gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau sy'n ymwneud â gwasanaethau datrys anghydfodau.

Mae is-adran (5) yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol i sicrhau bod plant anabl, rhieni plant anabl, penaethiaid ysgolion a pherchenogion ysgolion yn eu hardal, a phersonau eraill o'r fath y mae'r Awdurdodau o'r farn eu bod yn briodol, yn ymwybodol bod gwasanaethau datrys anghydfodau ar gael.

Mae is-adran (6) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol hysbysu plant anabl, rhieni plant anabl a chyfeillion achos ar gyfer plant anabl yn eu hardal na fydd cymryd rhan mewn trefniadau datrys anghydfodau'n effeithio ar hawl unrhyw berson i wneud hawliad i'r Tribiwnlys.

**Adran 13 – Gwasanaethau eirioli annibynnol**
**(mewnosod adran 28IE newydd – Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995)**

Mae is-adran (1) o adran 281E newydd yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol i drefnu bod gwasanaeth eirioli annibynnol ar gael yn eu hardal, a bod plentyn anabl neu gyfaill achos ar gyfer plentyn anabl yn cael ei gyfeirio at y gwasanaeth pe byddai'n gofyn am hynny.

Mae is-adran (2) yn diffinio "independent advocacy services" (gwasanaethau eirioli annibynnol) yn wasanaethau a fwriedir ar gyfer darparu cyngor a chymorth i blentyn anabl sy'n ystyried p'un ai i wneud hawliad i'r Tribiwnlys ai peidio, sydd wedi gwneud neu sy'n bwriadu gwneud hawliad, neu sy'n cymryd rhan neu'n bwriadu cymryd rhan mewn trefniadau datrys anghydfodau.

Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol, pan fyddant yn gwneud trefniadau gwasanaethau eirioli, roi sylw i'r egwyddor bod

yn rhaid i'r gwasanaeth eirioli fod yn annibynnol ar unrhyw berson sy'n destun hawliad neu y mae a wnelo ag ymchwilio i'r hawliad neu ddyfarnu ar yr hawliad.

Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol gydymffurfio ag unrhyw reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru ac sy'n ymwneud â threfniadau gwasanaethau eirioli.

Mae is-adran (5) yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol i sicrhau bod plant anabl, rhieni, penaethiaid ysgolion a pherchenogion ysgolion yn eu hardal, a phersonau eraill o'r fath y mae'r Awdurdodau o'r farn eu bod yn briodol, yn ymwybodol bod gwasanaethau eirioli annibynnol ar gael.

Mae is-adran (6) yn caniatáu i Awdurdod Addysg Lleol wneud trefniadau sy'n darparu ar gyfer talu person, neu mewn perthynas â pherson, sy'n darparu gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer plentyn anabl neu gyfaill achos.

Mae is-adran (7) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru pan fydd yr Awdurdodau'n gwneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer plant neu gyfeillion achos.

**Adran 14 – Gweithdrefn y Tribiwnlys**

Mae'r adran hon yn diwygio adran 28J o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 drwy ddileu pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n llywodraethu achosion yn y Tribiwnlys ynghylch hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd, a thrwy roi'r pwerau hynny'n hytrach i Weinidogion Cymru.

Mae is-adran (2) yn ychwanegu paragraff ychwanegol at adran 28J(2) i alluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu at bartïon i achosion yn y Tribiwnlys, neu roi partïon yn lle partïon i achosion yn y Tribiwnlys.

**Adran 15 – Rôl Gweinidogion Cymru**

Mae'r adran hon yn diwygio rolau'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru o dan adran 28M o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.

Mae'r is-adran newydd (1A) yn diwygio adran 28M(1) drwy fewnosod is-adran newydd (1A). Mae is-adran (1A) yn gwneud darpariaeth i ganiatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i Awdurdod Addysg Lleol pan fydd yr Awdurdod Addysg Lleol yn gweithredu neu'n bwriadu gweithredu'n afresymol wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 a osodwyd gan y Mesur arfaethedig hwn, neu pan fydd wedi methu â chyflawni'r dyletswyddau hynny.

Mae is-adran (1B) yn diwygio adran 28M(4) fel y gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i Awdurdod Addysg Lleol o dan yr is-adran (1A) newydd hyd

yn oed os yw perfformiad dyletswydd yr Awdurdod Addysg Lleol yn amodol ar farn yr Awdurdod Addysg Lleol.

Mae is-adran (3) yn diwygio adran 28M(6) drwy fewnosod is-adran (6A) a (6B) newydd. Mae'r darpariaethau hyn yn dileu swyddogaeth gwyno'r Ysgrifennydd Gwladol o ran methiant i gydymffurfio â gorchymyn y Tribiwnlys, a thrwy roi'r swyddogaeth honno'n hytrach i Weinidogion Cymru.

Mae is-adran (4) yn diwygio adran 28M(7) fel y gall y cyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru o dan yr is-adran (1A) newydd gael eu hamrywio neu'u diddymu a'u gorfodi ar gais Gweinidogion Cymru drwy orchymyn llys.

**Adran 16 – Gweithdrefnau ar gyfer gwneud rheoliadau**

Mae'r adran hon yn diwygio adran 67 o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 drwy fewnosod is-adran (5A) newydd sy'n darparu bod rheoliadau a wneir o dan adrannau 28IB, 28IC, 28ID, 28IE a 28J i fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

**Adran 17 – Treialu hawliau plentyn i apelio neu i wneud hawliad**

Mae is-adran (1) yn gwneud darpariaeth i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i dreialu, am gyfnod o hyd at 40 mis, hawliau a roddir i blentyn o dan y Mesur hwn.

Mae is-adran (2) yn pennu y caiff rheoliadau a wnaed o dan is-adran (1) wneud darpariaeth:

- mai dim ond i blant y mae awdurdodau addysg lleol penodedig yn gyfrifol amdanynt y mae hawliau a roddir i blentyn gan y Mesur hwn mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig i fod yn gymwys;
- mai dim ond i awdurdodau lleol penodedig y mae dyletswyddau a roddir ar awdurdodau addysg lleol gan y Mesur hwn mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig i fod yn gymwys;
- mai dim ond i gorff sy'n gyfrifol am ysgol mewn ardaloedd penodedig y mae hawliau a roddir i berson gan y Mesur hwn mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail anabledd i fod yn gymwys; ac
- mai dim ond i awdurdodau addysg lleol penodedig y mae dyletswyddau a roddir ar awdurdod lleol gan y Mesur hwn mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail anabledd i fod yn gymwys.

Mae is-adran (2) hefyd yn caniatáu i reoliadau wneud darpariaeth i adroddiadau neu wybodaeth arall ar weithredu'r treialu gael eu darparu neu ei darparu ar gyfer Gweinidogion Cymru.

Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad ar sut y gweithredwyd y cynllun treialu ac ar ba mor effeithiol oedd y cynllun treialu o ran hyrwyddo llesiant plant.

Mae is-adran (5A) yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod adroddiad o dan is-adran (3) cyn diwedd y cyfnod treialu a nodir yn y rheoliadau o dan is-adran (1) ar yr amod fod 12 mis o'r cyfnod treialu wedi mynd heibio.

Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod copi o'r adroddiad o dan is-adran (5) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn 30 mis i'r cyfnod treialu a nodir yn y rheoliadau o dan is-adran (1).

**Adran 18 - Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch apelau a hawliadau gan blentyn**

Mae'r adran hon yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth drwy orchymyn ynghylch y materion sy'n cael eu treialu. Mae hyn yn cynnwys pŵer i ychwanegu, dileu neu addasu hawliau, i ddiwygio neu ddiddymu darpariaethau Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996 a Rhan 4 o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, ac i wneud diwygiadau canlyniadol a diddymiadau i ddarpariaethau yn y Deddfau hynny.

Diben y pŵer yw i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach ynghylch hawliau plant i wneud apelau a hawliadau yng ngoleuni'r wybodaeth a gesglir yn ystod y cyfnod treialu. Bydd y pŵer hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru addasu'r hawliau er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau nad ydynt yn dod i'r amlwg ond ar ôl i'r Mesur ddod yn weithredol yn gyffredinol ledled Cymru, yn ddarostyngedig i derfyn amser o 24 o fisoedd ar gyfer defnyddio'r pŵer gwneud gorchmynion sy'n cychwyn ar ddiwedd y cyfnod treialu.

Mae is-adran (4) yn datgan na all y pŵer i wneud gorchymyn o dan yr adran hon gael ei arfer cyn i'r adroddiad ar y treialu, y mae adran 17(5) yn ei wneud yn ofynnol, gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, neu ar ôl 24 mis o ddiwrnod olaf y cyfnod treialu a nodir yn y rheoliadau o dan is-adran 17(1).

**Adran 19 – Dehongli adrannau 17 ac 18**

Mae'r adran hon yn diffinio'r termau a ddefnyddir yn adrannau 17 ac 18.

**Adran 19A – Pwerau ar ddiddymu ac ail-ddeddfu'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995**

Mae is-adran (1) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn os bydd Rhan 4 o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 yn cael ei diddymu neu'i hailddeddfu gydag addasiad neu hebddo.

Mae is-adran (2)2 yn darparu y gall Gweinidogion Cymru arfer y pŵer i wneud gorchymyn cyn y bydd y ddeddfwriaeth sy'n diddymu ac yn ail-ddeddfu'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 yn cael ei chychwyn.

Mae is-adran (3) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn i sicrhau bod y darpariaethau gwahaniaethu ar sail anabledd yn y Mesur arfaethedig yn cael eu cadw drwy eu hail-fewnosod drwy orchymyn, mewn darpariaethau cyfatebol o ddeddfwriaeth cydraddoldeb newydd. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud unrhyw ddarpariaethau canlyniadol.

Mae is-adran (4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio neu ddiddymu deddfwriaeth gyfredol neu ddeddfwriaeth yn y dyfodol sy'n diddymu neu'n ailddeddfu Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 ac i ddiwygio neu ddiddymu unrhyw ddarpariaeth yn y Mesur hwn.

## Rhan 2 – Amrywiol a Chyffredinol

**Adran 20 –Y cyfnod sylfaen**

Mae'r adran hon yn rhoi "foundation phase" yn lle "foundation stage" bob tro y ceir y term yn Neddf Addysg 2002. Mae hefyd yn dileu pob cyfeiriad at "the first key stage" (cyfnod allweddol 1) o fewn y Ddeddf honno.

**Adran 20A – Deddf Dysgu a Sgiliau 2000**

Mae'r adran hon yn diwygio Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 mewn perthynas â hawliadau disgyblion o dan y cwricwlwm lleol.

Mae'r adran hon yn diwygio adran 33(F)(1)(a) Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 i roi eglurder mewn achosion pan nad yw dysgwr yn mynychu'r ysgol a bennir gan y pennaeth yn ystod cyfnod allweddol 4. Mae hefyd yn diwygio adran 33N(1) Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 i ganiatáu i bennaeth wneud penderfyniad ar hawl myfyrwyr ar ôl dechrau'r flwyddyn academaidd.

**Adran 21 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol**

Mae'r adran hon yn datgan y nodir mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol yn yr Atodlen i'r Mesur.

**Adran 22 – Gorchmynion a rheoliadau**

Mae is-adran (1) yn darparu bod unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol.

Mae is-adran (2) yn pennu bod unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur yn cynnwys pŵer i wneud gofynion gwahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol, i wneud darpariaeth yn gyffredinol neu ar gyfer achosion penodol, ac i wneud darpariaethau cysylltiedig, atodol, darfodol, trosiannol neu arbed.

Mae is-adran (3) yn pennu y bydd rheoliadau treialu (a wneir o dan adran 17) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i unrhyw orchymyn, sy'n arfer y pwerau a roddwyd gan adran 18 neu 19A i Weinidogion Cymru i ddiwygio'r Mesur, gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

**Adran 22A – Gorchmynion a wnaed o dan adran 18: gweithdrefn**

Mae'r adran hon yn nodi'r weithdrefn ar gyfer gorchmynion a wnaed o dan adran 18 o'r Mesur arfaethedig. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, wrth wneud gorchymyn o dan adran 18, ymgynghori â phersonau â buddiant yr effeithir arnynt gan eu cynigion, gan roi ystyriaeth i'r canfyddiadau yn yr adroddiad treialu ac ystyried unrhyw gynrychiolaeth a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Adran 23 – Cychwyn**

Yn yr adran hon nodir y trefniadau ar gyfer cychwyn y Mesur mewn perthynas ag adrannau 22, 23 a 24. Mae holl ddarpariaethau eraill y Mesur sy'n weddill yn dod i rym pan gânt eu cychwyn gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

**Section 24 – Enw byr**

Mae'r adran hon yn cadarnhau mai enw'r Mesur yw Mesur Addysg (Cymru) 2010.